Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl a'r Drefn Ailystyried:

## Darparu system effeithiol a thryloyw

Chwefror 2019

CP 29

Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

# Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl a'r Drefn Ailystyried:

## Darparu system effeithiol a thryloyw

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2019

CP 29

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn: paroleboardreview@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0951-7

CCS1218255848 02/19

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan yr APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| 1. Crynodeb Gweithredol | 5 |
| 2. Methodoleg | 14 |
| 3. Y Drefn Ailystyried | 15 |
| 4. Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Dioddefwyr | 18 |
| 5. System Dryloyw ac Agored | 24 |
| 6. Gofynion Tystiolaeth | 26 |
| 7. Sicrhau Ansawdd | 28 |
| 8. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd | 31 |
| 9. Troseddwyr gydag Anghenion Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu | 34 |
| Atodiad A – Cylch Gorchwyl yr Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl | 37 |

# Rhagair

Pan gyhoeddais yr *Adolygiad o gyfraith, polisi a gweithdrefn yng nghyswllt penderfyniadau'r Bwrdd Parôl,* ymrwymais i fynd ymhellach na'r mesurau a gynigiwyd yn y ddogfen honno. Lansiais ymgynghoriad cyhoeddus yn holi barn am drefn newydd ar gyfer ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl, yn ogystal ag adolygiad o holl Reolau'r Bwrdd Parôl – i ymchwilio i fwy o gyfleoedd i ddiwygio'r system. Rwyf yn awr yn falch o gyhoeddi adroddiad y Llywodraeth ar yr adolygiad hwnnw a'n hymateb i'r ymgynghoriad.

Un o'r prif feirniadaethau o'r system barôl yw ei diffyg tryloywder, gyda gormod o brosesau'n digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig; ynghyd â diffyg ymgysylltu a chyfathrebu gyda dioddefwyr. Ers hynny gwnaed llawer i geisio datrys y pethau hyn ac rwyf yn falch yn yr adroddiad hwn o gyflwyno'r newidiadau hynny – ynghyd â rhaglen o ddiwygiadau pellach.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar greu Trefn newydd ar gyfer Ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl. Rwyf yn falch o gadarnhau y bwriadaf ddarparu ar gyfer trefn fydd yn ei gwneud yn bosib i benderfyniadau gael eu hailystyried mewn achosion lle mae'n ymddangos y gallent fod yn gyfreithiol neu'n weithdrefnol wallus.

Cymerwyd camau i wella tryloywder eisoes. I ganiatáu datgelu mwy o wybodaeth am sut y gwneir penderfyniadau, gall dioddefwyr ac eraill ofyn yn awr am grynodeb o benderfyniadau. Rwyf yn ddiolchgar i'r Bwrdd Parôl am gofleidio'r rôl newydd hon ac am ei waith yn cynhyrchu'r crynodebau.

Rwyf yn benderfynol o wneud mwy i sicrhau bod y system barôl yn fwy tryloyw. Er enghraifft, bydd y Bwrdd Parôl yn cynhyrchu a chyhoeddi cyfres o ganllawiau Ymarfer Safonol fydd yn egluro'n well a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddulliau'r Bwrdd wrth gyrraedd ei benderfyniadau. Bydd hyn yn arwain at fwy o gysondeb o ran sut y mae'r Bwrdd yn adolygu achosion ac yn cynnig mwy o atebolrwydd oherwydd bydd yn glir lle na chafodd yr arfer safonol ei dilyn.

Ym mis Medi cyhoeddodd y Llywodraeth ei Strategaeth Dioddefwyr. Mae gwella profiad dioddefwyr, y wybodaeth a roddir iddynt a sut yr ydym yn cyfathrebu gyda nhw, yn gwbl greiddiol – nid dim ond yn ystod y broses barôl ond drwy gydol y siwrne cyfiawnder troseddol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ystod o fesurau ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr ynghyd ag ymrwymiadau pellach i wella eu profiad o'r broses barôl.

Bwriedir gweithredu'r diwygiadau yn yr adroddiad hwn dros y misoedd nesaf.

Byddwn hefyd yn cyflawni Adolygiad Pwrpasol o'r Bwrdd Parôl i ystyried a oes dadl dros wneud diwygiadau pellach, mwy sylfaenol lle byddai angen deddfwriaeth sylfaenol – gan gynnwys a ddylid newid y pwerau a'r cyfrifoldebau sydd gan y Bwrdd Parôl neu a ddylid ei ad-drefnu i ddarparu ei swyddogaethau mewn ffordd wahanol.

Ar ôl taflu golau ar y system barôl ac archwilio'r holl Reolau perthnasol i'r gweithdrefnau y mae'r Bwrdd Parôl yn eu dilyn, rhaid pwysleisio nad yw hyn wedi datgelu unrhyw ddiffygion dwfn o ran sut y gwneir penderfyniadau parôl. Rwyf felly'n fodlon bod y system barôl yn cyflawni ei phrif bwrpas o ryddhau carcharorion a dreuliodd yr amser lleiaf sy'n

ofynnol dan glo dim ond ar ôl gwneud asesiad risg trylwyr ac annibynnol a lle mae'r Bwrdd yn ffyddiog y gellir eu rheoli'n ddiogel ar drwydded yn y gymuned.

Er hynny, rwyf yn cydnabod bod angen gwelliannau – yn enwedig drwy wneud y system barôl yn fwy agored ac atebol a thrwy fynd i'r afael â'r materion diweddar sydd, yn ddealladwy, wedi ysgwyd ffydd y cyhoedd. Credaf y bydd y diwygiadau yn yr adroddiad hwn yn gwneud y rhan bwysig yma o'r system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithiol a thryloyw.

**Y Gwir Anrh. David Gauke AS**
**Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

## 1. Crynodeb Gweithredol

| Penawdau |
|---|
| Byddwn yn newid Rheolau'r Bwrdd Parôl i greu **trefn ailystyried** newydd felly os oes penderfyniad sy'n ddifrifol wallus y gellir edrych arno eto heb fod angen adolygiad barnwrol. |
| Bydd y Bwrdd Parôl yn cyhoeddi **dogfennau Ymarfer Safonol** newydd i wneud yr ystyriaethau a'r dulliau y dylid eu mabwysiadu fel arfer wrth wneud penderfyniadau yn fwy tryloyw. |
| Bydd **ymgysylltu a chyfathrebu gwell yn digwydd gyda dioddefwyr** drwy'r newidiadau i'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, yr ymrwymiadau yn y Strategaeth Dioddefwyr a gyhoeddwyd ar 10 Medi 2019 a thrwy God Dioddefwyr diwygiedig yn dilyn ymgynghori arno yn 2019. |
| Byddwn yn disodli Cyfarwyddyd presennol y Gwasanaeth Carchardai ar y broses barôl gyda **Fframwaith Polisi** newydd a fydd yn gwella prydlondeb ac effeithlonrwydd a hefyd yn sicrhau bod y cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd yn rhai diweddar ac yn cefnogi'r diwygiadau eraill. |
| Bydd **Protocol Gweithredol** newydd rhwng y Bwrdd Parôl a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn cael ei gyhoeddi i egluro'n well a gwneud rolau a chyfrifoldebau pawb yn fwy agored; yn cefnogi mwy o weithio ar y cyd ac yn lleihau dyblygu. |
| Bydd darpariaeth yn y **Rheolau ar gyfer carcharorion gydag anghenion iechyd meddwl ac anawsterau dysgu** sydd heb alluedd meddyliol, i sicrhau gwrandawiad teg, gan gynnwys drwy benodi cynrychiolydd addas lle bo angen. |
| Bydd **Pwyllgor Rheolau'n** cael ei sefydlu i oruchwylio newidiadau i'r Rheolau yn y dyfodol, gan sicrhau bod y Rheolau'n aros ar y blaen i ddatblygiadau ehangach, gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr dioddefwyr. |
| Bydd **Adolygiad Pwrpasol** o'r Bwrdd Parôl yn edrych ar gyfansoddiad y Bwrdd Parôl yn y dyfodol ac a oes angen diwygiadau dyfnach a fyddai'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. |

## Rhagarweiniad

1. Ar 28 Ebrill 2018, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol adroddiad ar yr *Adolygiad o gyfraith, polisi a gweithdrefn yng nghyswllt penderfyniadau'r Bwrdd Parôl* (yr 'adolygiad cyntaf'). Cafodd ei wneud yn sgîl penderfyniad y Bwrdd Parôl i gyfarwyddo bod John Worboys yn cael ei ryddhau. Cafodd y penderfyniad hwnnw i ryddhau ei wrthdroi gan yr Uchel Lys yn dilyn adolygiad barnwrol. Cododd yr achos nifer o bryderon difrifol gan daflu golau ar agweddau ar y system barôl sydd angen eu newid. Yn benodol, sut yr ymgysylltir ac y cyfathrebir gyda dioddefwyr a'r diffygion o ran pa mor dryloyw ac agored yw'r system.

2. Gwnaed nifer o ymrwymiadau gan yr 'adolygiad cyntaf' hwnnw:

### *Crynodeb o Benderfyniadau'r Bwrdd Parôl*

- Ymrwymwyd i ddileu'r gwaharddiad llwyr ar ddatgelu gwybodaeth am achosion Bwrdd Parôl a disodli hynny gyda rhagdybiaeth y dylid rhoi crynodeb i ddioddefwyr o resymau'r Bwrdd Parôl dros wneud ei benderfyniad, os ydynt eisiau hyn. Cafodd yr ymrwymiad hwn ei gwrdd ar 22 Mai 2018 pan ddiwygiwyd Rheol 25 o Reolau'r Bwrdd Parôl i ganiatáu anfon crynodeb o benderfyniadau at ddioddefwyr ac unrhyw bartïon eraill a ofynnai amdanynt. Mae'r Bwrdd Parôl yn cynhyrchu'r crynodebau hyn yn rheolaidd bellach.

### *Trefn Ailystyried (Pennod 3)*

- Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i greu trefn ailystyried newydd lle gallai penderfyniadau'r Bwrdd Parôl gael eu hailystyried mewn rhai amgylchiadau. Rydym wedi penderfynu symud ymlaen i weithredu'r drefn hon. Ar ôl ystyried y 74 ymateb a ddaeth i law, rydym wedi datblygu model ar gyfer sut y dylai'r drefn weithio. Mae ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad, sy'n rhoi'r manylion am sut y bydd y drefn yn cael ei darparu, yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r adroddiad hwn – ond eglurir prif nodweddion y drefn ailystyried ym Mhennod 3. Dyma fydd y prif newid y byddwn yn ei wneud i Reolau'r Bwrdd Parôl.

### *Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl*

- Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol adolygiad cynhwysfawr o holl Reolau'r Bwrdd Parôl i sicrhau bod y gweithdrefnau a'r prosesau sy'n cael eu dilyn yn gadarn a theg – ac er mwyn gallu adnabod unrhyw gyfleoedd eraill i ddiwygio'r broses. Cyhoeddwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad ar 28 Ebrill 2018 (Atodiad A). Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad hwnnw ynghyd â'r mesurau a'r diwygiadau sydd wedi eu hadnabod i wella'r system barôl ymhellach. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i newid y Rheolau gweithdrefnol statudol; bwriedir gwneud diwygiadau gweithredol eraill a chyflwyno dulliau newydd a fydd, gyda'i gilydd, yn ateb y meysydd a nodir yn y Cylch Gorchwyl.

## Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Dioddefwyr (Pennod 4)

3. Roedd yr adolygiad cyntaf yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau i'r **Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS)**. Ers hynny mae llawer iawn wedi'i wneud i ganfod ffyrdd o ymgysylltu a chyfathrebu'n well gyda dioddefwyr – a gwnaed ymrwymiadau pellach yn y Strategaeth Dioddefwyr a gyhoeddwyd ar 10 Medi 2018. Mae Pennod 4 yr

adroddiad hwn yn nodi'r mesurau sydd i'w cymryd i wella'r system i ddioddefwyr, gan gynnwys: hyfforddiant a chanllawiau fel bod Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr (VLO) yn cyfathrebu'n well gyda dioddefwyr; newidiadau i'r VCS i'w gwneud yn haws i ddioddefwyr ymuno neu beidio; ac fel bod swyddogion VLO yn gallu cynnig cyswllt i gategorïau eraill o ddioddefwyr.

4. Mae mesurau ychwanegol yn y **Strategaeth Dioddefwyr** yn cynnwys ymgynghori ar newidiadau i'r Cod Dioddefwyr, gan gynnwys y bwriad i wreiddio'r rhagdybiaeth bresennol bod dioddefwr mewn gwrandawiad parôl yn gallu darllen eu datganiad personol (VPS), neu gael rhywun i'w ddarllen ar eu rhan; ac amddiffyn a rhoi mwy o sicrwydd i ddioddefwyr o ran hysbysu carcharorion am resymau dioddefwyr dros ofyn am amodau trwydded.

5. Bwriedir ymgynghori eleni ar **Gôd Dioddefwyr** diwygiedig a deddfwriaeth ehangach ar gyfer dioddefwyr i gynnwys cryfhau'r broses o orfodi'r Cod i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w derbyn a bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cael eu dal i gyfrif os nad ydynt yn eu darparu. Unwaith y sefydlir pa hawliau dioddefwyr sydd i'w cynnwys yn y Cod Dioddefwyr diwygiedig, cynigiwn ystyried newidiadau pellach i Reolau'r Bwrdd Parôl i adlewyrchu hawliau dioddefwyr sy'n ymwneud â'r broses barôl o fewn y Rheolau.

6. Cyn yr ymgynghoriad, bydd gwaith yn parhau ar wneud gwelliannau i'r VCS gan gynnwys sicrhau bod gan swyddogion VLO yr holl ganllawiau, gwybodaeth a hyfforddiant angenrheidiol ar y newidiadau a'r diwygiadau i'r system barôl. Bydd swyddogion VLO yn chwarae rôl allweddol, er enghraifft, mewn rhoi arweiniad a chymorth i ddioddefwyr ar y drefn ailystyried newydd – felly byddwn yn gwneud yn siŵr bod ganddynt y canllawiau, taflenni a'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt.

## System Dryloyw ac Agored (Pennod 5)

7. Mae Pennod 5 yn canolbwyntio ar y mesurau a gymerwyd a'r diwygiadau pellach sydd i'w gwneud i sicrhau bod y system barôl mor dryloyw ac agored â phosib.

8. Mae'r newidiadau i Reol 25 a chyflwyno **Crynodebau o Benderfyniadau** ers 22 Mai 2018 wedi gwneud llawer iawn i wneud penderfyniadau parôl yn fwy agored, gyda rhesymau pellach yn cael eu rhoi fel mater o drefn gan y Bwrdd Parôl i ddioddefwyr ac eraill sy'n gofyn am grynodeb. Mae Pennod 5 yn rhoi gwybodaeth bellach am sut y mae darparu'r crynodebau o benderfyniadau wedi bod yn gweithio ers i'r newid i'r Rheol ddod i rym. Byddwn yn adolygu gweithrediad y Rheol 25 newydd yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau i wella tryloywder y system.

9. Mae'r adolygiad hwn wedi ystyried beth yn fwy y gellir ei wneud. Roeddem yn ymwybodol, yn achos adolygiad barnwrol *Worboys*, o ddyfarniad y llys fod gwaharddiad llwyr ar ddatgelu gwybodaeth am achos parôl yn mynd yn groes i egwyddorion cyfiawnder agored, a hynny'n anghyfreithlon. Daethom i'r casgliad fod y newidiadau i Reol 25 yn ddigon i gywiro hyn ac yn ein barn ni nad oes angen newidiadau pellach o ran tryloywder y Rheolau gweithdrefnol eu hunain. Fodd bynnag, mae newidiadau gweithredol pellach yn cael eu gwneud i sicrhau bod gan y cyhoedd fwy o wybodaeth am y broses barôl a sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys fideo gan y Bwrdd Parôl yn egluro'r broses barôl, gwybodaeth ar-lein well a blog rheolaidd gan Brif Weithredwr y Bwrdd yn egluro datblygiadau a newidiadau allweddol.

10. Bydd tryloywder gwell yn digwydd drwy i'r Bwrdd Parôl gynhyrchu a chyhoeddi **canllawiau Ymarfer Safonol** a chyfarwyddiadau Ymarfer Safonol. Bydd y rhain yn cryfhau'r canllawiau mewnol presennol i aelodau gan egluro dull y Bwrdd o gyflawni ei swyddogaethau statudol a sut y dylai gwrdd â'r gofynion gweithdrefnol yn y Rheolau. Bydd hyn yn cynnwys y canllawiau, gweithdrefnau a'r dulliau sydd wedi'u mabwysiadu gan y Bwrdd Parôl.

11. Nid yn unig y bydd hyn yn sicrhau cysondeb wrth adolygu achosion a chydymffurfio â'r Rheolau newydd, bydd hefyd yn gwneud ymarfer a dulliau'r Bwrdd o wneud pethau'n fwy tryloyw ac yn arwain at fwy o atebolrwydd drwy gyhoeddi dogfennau ymarfer safonol.

## Gofynion Tystiolaeth (Pennod 6)

### *Tystiolaeth yn ymwneud â throseddau dieuogfarn*

12. Un o'r prif broblemau i godi o achos *Worboys* a'r adolygiad cyntaf oedd y cwestiwn o ba dystiolaeth y dylai'r Bwrdd Parôl ei hystyried wrth benderfynu a oedd yn ddiogel i garcharor gael ei ryddhau neu beidio. Canfyddiad yr Uchel Lys oedd y dylai'r Bwrdd Parôl fod wedi ymchwilio'n fwy trylwyr i dystiolaeth o amgylchiadau ehangach troseddau John Worboys ac ystyried yr hyn a oedd yn hysbys am droseddau eraill na chafwyd ef yn euog ohonynt. Y methiant i wneud hyn a arweiniodd at wrthdroi'r penderfyniad i'w ryddhau.

13. Mae'n faes anodd ond yn un a fu'n bwysig i roi sylw llawn i ganfyddiadau'r dyfarniad yn achos *Worboys* i sicrhau na ellir beirniadu achosion eraill am fethiannau tebyg. Mae HMPPS a'r Bwrdd Parôl wedi cymryd camau i roi sylw i hyn. Rhoesom ganllawiau a chyfarwyddyd newydd i staff HMPPS sy'n paratoi ffeiliau coflen ar gyfer y Bwrdd i sicrhau bod yr holl dystiolaeth berthnasol yn cael ei chynnwys bob tro – gan gynnwys tystiolaeth am droseddau dieuogfarn a sylwadau dedfrydu'r barnwr. Cyflwynwyd gwiriadau ychwanegol gan reolwyr hefyd i sicrhau bod hyn yn digwydd.

14. Mae'r Bwrdd Parôl hefyd wedi cynhyrchu canllawiau a chynnal sesiynau ar gyfer ei aelodau ar sut y dylid ystyried tystiolaeth yn ymwneud â throseddau dieuogfarn. Mater i baneli unigol yw asesu pa dystiolaeth sy'n berthnasol a pha bwysau i'w rhoi iddi yng ngoleuni amgylchiadau penodol yr achos sydd gerbron y panel; ond bydd yn awr yn cael ei hystyried yng ngoleuni'r canllawiau a'r arweiniad pellach a roddwyd i aelodau.

15. Bwriedir hefyd bod y canllawiau a'r dull tystiolaeth a ddefnyddir yn y broses barôl - gan gynnwys ar droseddau dieuogfarn - yn cael eu cyhoeddi.

### *Peidio â datgelu tystiolaeth*

16. Mae Pennod 6 hefyd yn trafod asesiad yr adolygiad o'r Rheolau ar ddatgelu a pheidio â datgelu tystiolaeth mewn achos. Credwn fod y Rheolau'n taro'r cydbwysedd iawn rhwng beth y dylid ei ddatgelu er mwyn sicrhau gwrandawiad teg ac agored, a beth na ddylid ei ddatgelu er mwyn diogelu unigolion, amddiffyn y cyhoedd a chynnal diogelwch lle bo angen.

17. Fodd bynnag, gall problemau godi lle gwneir ceisiadau peidio â datgelu'n hwyr, oherwydd gall arwain at oedi gwrandawiad ac achosi rhwystredigaeth a straen pellach i ddioddefwyr a charcharorion. Felly cynigiwn gyflwyno gofyniad y dylid

gwneud ceisiadau peidio â datgelu wyth wythnos cyn y gwrandawiad, gan felly osgoi'r problemau hynny. Fodd bynnag, byddai gan Gadeirydd y panel ddisgresiwn i ganiatáu ceisiadau hwyr lle byddai hynny'n briodol.

## Sicrhau Ansawdd a Chyfansoddiad Paneli (Pennod 7)

18. Un o dasgau'r adolygiad oedd ystyried a ddylai'r Rheolau nodi gofynion o ran cyfansoddiad y paneli a'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd penderfyniadau a phrosesau'r Bwrdd Parôl er mwyn cael dull trylwyr a chyson o weithredu. Trafodir hyn ym Mhennod 7.

### *Cyfansoddiad paneli*

19. Casglodd yr adolygiad na fyddai'n briodol na'n ddefnyddiol i'r Rheolau geisio rhagnodi beth ddylai cyfansoddiad panel fod ar gyfer dosbarth neu gategori penodol o achosion. Bydd hynny'n dibynnu ar yr amgylchiadau unigol a natur pob achos a lle'r Bwrdd o reidrwydd fydd penderfynu pa aelodau i'w penodi i ba achosion. Byddai cynnwys gofynion ar gyfer hyn yn y Rheolau hefyd yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r Bwrdd i wneud y defnydd gorau o'i aelodau mewn ymateb i'r achosion a restrir ar unrhyw adeg.

20. Mae gan Gadeirydd y Bwrdd Parôl a'r Prif Weithredwr fesurau yn eu lle i sicrhau bod paneli'n cynnwys aelodau sydd â'r profiad a'r arbenigedd iawn ar gyfer yr achos. Penodir yr aelodau mwyaf profiadol neu aelodau barnwrol i ddelio â'r achosion mwy cymhleth, proffil uchel neu gyfreithiol heriol.

### *Sicrhau ansawdd*

21. Mae mesurau cadarn hefyd yn eu lle i wirio bod y gweithdrefnau a'r prosesau iawn yn cael eu dilyn ac i sicrhau ansawdd uchel drwy gydol y broses (er enghraifft, gwirio ansawdd cynnwys adroddiadau a ffeiliau coflen cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd). Ni ystyrir bod angen diwygio nac ychwanegu dim byd arall at y Rheolau na chyflwyno newidiadau pellach i'r broses.

22. Mae'r Bwrdd Parôl eisoes yn adrodd i'r Senedd ar bob agwedd ar ei berfformiad; mae ymchwiliad annibynnol yn cael ei gynnal iddo gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; ac mae'n darparu tystiolaeth ar gais y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder. Mae hyn yn cynnig lefel uchel o graffu a sicrwydd.

23. Fodd bynnag, er mwyn gwella hyder pobl yn y system barôl a bod yn fwy tryloyw, bwriadwn wneud mwy i dynnu sylw at y mesurau sicrhau ansawdd sydd yn eu lle. Er enghraifft, rydym wedi cyhoeddi polisi ar bryd y dylai cynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol fynychu gwrandawiad. A siarad yn gyffredinol, dylent fod yn bresennol lle byddai hyn yn cynorthwyo gydag achos arbennig o gymhleth neu heriol i sicrhau bod y dystiolaeth yn cael ei chyflwyno a'i hegluro mor effeithiol â phosib.

## Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd (Pennod 8)

24. Nid yw system barôl effeithlon ac effeithiol yn fater o ddim ond sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau a chynnig gwerth da am arian. Mae'n rhan annatod o ddarparu cyfiawnder. Mae gan garcharorion hawl gyfreithiol i dderbyn adolygiad annibynnol, rheolaidd a diymdroi o'u dedfryd unwaith iddynt dreulio'r amser lleiaf sy'n ofynnol dan glo yn ôl dedfryd y llys. Mae hefyd er budd i ddioddefwyr ein bod yn sicrhau nad yw achosion parôl yn wynebu oedi neu ansicrwydd oherwydd gall hynny hwyhau'r straen a'r poeni sy'n gysylltiedig â pheidio â gwybod a fydd, neu bryd y bydd carcharor yn cael ei ryddhau.

25. Am y rhesymau hyn, mae prosesau a gweithdrefnau prydlon ac effeithiol yn hanfodol. Felly mae'r adolygiad wedi ystyried pa mor dda y mae'r system barôl yn perfformio ar hyn o bryd yn y cyswllt hwn, ac wedi adnabod mesurau i wneud gwelliannau pellach. Eglurir y rhain ym Mhennod 8.

### *Protocol Gweithredol newydd*

26. I gryfhau'r cyd-weithredu ar fynd i'r afael â'r problemau sy'n effeithio ar y system barôl, ac i hwyluso darparu newidiadau a diwygiadau eraill, bydd **Protocol Gweithredol** newydd rhwng y Bwrdd Parôl a HMPPS yn cael ei gytuno a'i gyhoeddi. Un o'r materion a gododd yn yr Adolygiad oedd bod angen mwy o eglurder a dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol gyfranogwyr yn y broses barôl. Bydd y Protocol Gweithredol yn rhoi sylw i hyn ac yn creu cyd-ymrwymiad o ran sut y bydd y ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd gyda phob elfen o'r broses barôl gan hefyd gadw'r Bwrdd Parôl yn gwbl annibynnol.

### *Amserlen a Fframwaith Polisi newydd ar gyfer y Broses Barôl Gyffredinol*

27. Rhan o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad oedd edrych ar yr amserlen sydd ei hangen ar gyfer pob cam o'r broses. Rydym wedi canfod ffyrdd lle byddai modd gwella'r amseroedd a'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu proses fwy effeithlon. Er enghraifft, drwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoli'r ffeil goflen o'r Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd (PPCS) yn HMPPS i'r Bwrdd Parôl ar ôl ei chyflwyno - ar hyn o bryd mae'n waith sy'n cael ei ddyblygu. Ni fydd hyn yn gofyn newid y Rheolau, bydd yn cael ei gyflawni drwy'r Protocol Gweithredol.

28. Yn fwy cyffredinol o ran amserlen a'r hyn sydd angen ei wneud ym mhob cam o'r broses barôl, bydd HMPPS yn cynhyrchu **Fframwaith Polisi** newydd i ddisodli Cyfarwyddyd presennol y Gwasanaeth Carchardai ar y Broses Barôl Gyffredinol (GPP). Bydd hyn yn gweithredu'r gwelliannau i'r amserlen sydd gennym mewn golwg – er enghraifft, y PPCS yn cyfeirio achosion i'r Bwrdd Parôl dim ond ar ôl cwblhau'r adroddiadau ar gyfer y ffeil goflen, fel na fydd terfyn amser y Bwrdd Parôl yn cael ei osod tan fydd gan y Bwrdd bopeth sydd ei angen arno i symud ymlaen gyda'r achos. Bydd y Fframwaith Polisi newydd hefyd yn sicrhau'r gofynion gorfodol a'r canllawiau diweddaraf ar gyfer staff HMPPS, a hefyd yn cefnogi cyflwyno'r diwygiadau a'r gwelliannau eraill i'r system barôl sydd ar y gweill – gan gynnwys y drefn ailystyried newydd.

## Troseddwyr gydag Anghenion Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu (Pennod 9)

29. Yng ngoleuni dyfarniad yr Uchel Lys yn achos *Worboys*, pan gafwyd bod un o'r Rheolau'n anghyfreithlon (oherwydd bod ei waharddiad llwyr ar ddatgelu gwybodaeth yn mynd yn groes i egwyddorion cyfiawnder agored), aeth yr Adolygiad ati i archwilio'r holl Reolau eraill i gadarnhau nad oedd unrhyw ddiffygion cyfreithiol posib eraill na risg o ddod o hyd i achosion eraill o groesi'r egwyddorion.

30. Ni chafodd unrhyw ddiffyg posib arall o'r fath ei ganfod. Ond casglodd yr Adolygiad y byddai'r Rheolau'n elwa o ddarpariaeth ychwanegol – oherwydd nad oedd wedi'i chynnwys yn benodol – sef egluro'r weithdrefn i'w dilyn mewn achosion lle canfyddir nad oes gan y carcharor alluedd meddyliol i gyfranogi yn y broses barôl.

31. Cynigiwn felly gyflwyno Rheol ychwanegol fydd yn sicrhau, yn achos carcharorion gydag anghenion iechyd meddwl neu anawsterau dysgu, a asesir gan weithwyr proffesiynol perthnasol i fod heb alluedd meddyliol, y bydd gan y Bwrdd bwerau penodol i benodi cynrychiolydd ar eu cyfer i sicrhau gwrandawiad teg. Mae Pennod 9 yn egluro pam yr ydym wedi penderfynu gwneud hyn a sut y bwriadwn ei weithredu.

## Pwyllgor Rheolau

32. I wneud newidiadau i'r Rheolau'n gynt a haws yn y dyfodol – ac i sicrhau y gall y Rheolau aros ar y blaen yn haws gyda newidiadau eraill i'r system – rydym yn sefydlu Pwyllgor Rheolau anffurfiol i oruchwylio hyn ac i wneud newidiadau pellach pan ac fel y bo angen. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys mewnbwn gan y Bwrdd Parôl a chynrychiolwyr dioddefwyr a charcharorion i sicrhau bod barn pawb yn cael ei chlywed – fydd yn cyfrannu eto at ddull mwy agored, cynhwysol ac ymatebol o gyflwyno newidiadau i'r Rheolau yn y dyfodol.

## Adolygiad Pwrpasol o'r Bwrdd Parôl

33. Ochr yn ochr â chyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi cyhoeddi lansio Adolygiad Pwrpasol o'r Bwrdd Parôl. Mae'n ofynnol i adrannau'r Llywodraeth gyflawni adolygiad o'u Cyrff Lled Braich (ALB) unwaith bob cyfnod Seneddol. Pwrpas hyn yw edrych i weld a yw swyddogaethau'r cyrff ALB yn parhau i fod yn angenrheidiol; a oes angen newid y swyddogaethau; ac ai'r strwythurau a'r trefniadau presennol yw'r ffordd orau o ddarparu'r swyddogaethau hynny.

34. Fel rhan o gylch gwaith yr Adolygiad Pwrpasol, gall ystyried opsiynau mwy sylfaenol ar gyfer newid ffurf, cyfansoddiad neu swyddogaethau statudol y Bwrdd Parôl, lle byddai efallai angen pasio deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n rhoi cyfle i edrych ar waith y Bwrdd yng nghyd-destun y newidiadau a'r gwelliannau i'r system barôl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn ac ystyried, yng ngoleuni hynny, a oes dadl dros fynd ymhellach yn y tymor hir.

35. Mae'r Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl – a'r ymgynghori ar greu trefn ailystyried – wedi eu cyflawni i weld beth y gellir ei gyflawni yn y tymor byr (h.y. gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd eisoes yn bodoli) drwy wneud newidiadau i'r Rheolau a gwelliannau gweithredol a pholisi. Bu'n bwysig ac angenrheidiol rhoi sylw i'r pryderon a'r materion taer a gododd yn sgîl achos *Worboys* a darparu'r ymrwymiadau a wnaed drwy'r adolygiad cyntaf.

36. Ond dim ond hyn a hyn o ddiwygio y gellir ei wneud heb ddeddfwriaeth sylfaenol. Os oes dadl dros fynd ymhellach – er enghraifft, drwy roi pwerau ychwanegol tebyg i bwerau'r llys i'r Bwrdd Parôl, neu'n wir drwy newid cyfansoddiad y Bwrdd i ddarparu ei swyddogaethau mewn ffordd wahanol – opsiynau i'w hystyried gan yr Adolygiad Pwrpasol yw'r rhain.

## Casgliadau a'r Camau Nesaf

# Casgliadau a'r camau nesaf

| Sut y bydd y system barôl yn wahanol, ac yn well, o ganlyniad i waith yr adolygiad hwn? Unwaith y gweithredir y mesurau yn yr adroddiad hwn, bydd gennym: | Bydd y mesurau hyn yn cael eu gweithredu yn ystod 2019 drwy gyfrwng nifer o ddulliau: |
|---|---|
| • Drefn ailystyried newydd yn Rheolau'r Bwrdd Parôl fydd yn rhoi cyfle i benderfyniadau gwallus gael eu hailystyried heb fod angen adolygiad barnwrol;<br><br>• Canllawiau Ymarfer Safonol wedi eu cyhoeddi ar gyfer y Bwrdd Parôl fydd yn gwneud gwaith y Bwrdd Parôl yn fwy agored a thryloyw;<br><br>• Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr sydd wedi eu hyfforddi a'u harfogi'n well i ddarparu'r wybodaeth a'r cymorth sydd ei angen ar ddioddefwyr i'w helpu drwy'r broses barôl (ochr yn ochr â Chynllun Cyswllt Dioddefwyr gwell lle mae'n haws i ddioddefwyr ymuno â fo neu beidio, ac sy'n darparu cyswllt drwy ddisgresiwn i gategorïau eraill o ddioddefwyr);<br><br>• Canllawiau a dull clir o ran tystiolaeth am droseddau na chafwyd y carcharor yn euog ohonynt, i sicrhau bod y dystiolaeth yma'n cael ei hystyried pan fydd yn berthnasol i'r penderfyniad parôl;<br><br>• Rheolau Diwygiedig ar derfynau amser ar gyfer ceisiadau peidio â datgelu, ac ar gyfer datgelu tystiolaeth a chyflwyno dogfennau, i ddarparu ar gyfer dulliau electronig newydd; | • Bydd Offeryn Statudol yn cyflwyno Rheolau newydd y Bwrdd Parôl yn cael ei roi gerbron i weithredu'r drefn ailystyried newydd a newidiadau eraill i'r Rheolau;<br><br>• Bydd canllawiau, gwybodaeth, gwaith papur newydd a hyfforddiant i swyddogion VLO – ac eraill sy'n ymwneud â'r mesurau newydd – yn cael eu datblygu'n barod ar gyfer pan ddaw'r Rheolau newydd i rym;<br><br>• Bydd dogfennau Ymarfer Safonol newydd y Bwrdd Parôl yn cael eu cyhoeddi a bydd rhaglen barhaus i gynhyrchu'r safonau ar gyfer yr holl feysydd y bydd eu hangen ar eu cyfer;<br><br>• Bydd cyhoeddusrwydd pellach a gwybodaeth i'r cyhoedd am y system barôl a'r diwygiadau ar gael ar wefan y Bwrdd Parôl ac ar GOV.UK;<br><br>• Bydd y Protocol Gweithredol rhwng HMPPS a'r Bwrdd Parôl yn cael ei gyhoeddi unwaith y bydd y Rheolau newydd wedi eu cyflwyno;<br><br>• Bydd y Fframwaith Polisi newydd ar y Broses Barôl Gyffredinol yn cael ei gyhoeddi yn 2019; |

| | |
|---|---|
| • Trefniadau sicrhau ansawdd gwell, i roi sicrwydd bod dulliau cadarn yn eu lle i wirio bod prosesau'n cael eu dilyn yn gywir ac i safon uchel;<br>• Protocol Gweithredol yn ei le rhwng HMPPS a'r Bwrdd Parôl yn nodi'n gliriach beth yw'r rolau a'r cyfrifoldebau, gan osgoi dyblygu diangen;<br>• Fframwaith Polisi newydd ar y Broses Barôl Gyffredinol yn gosod allan amserlen well a mwy effeithlon ar gyfer elfennau'r broses barôl ac sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu'r diwygiadau a'r mesurau newydd yn HMPPS;<br>• Darpariaeth newydd yn Rheolau'r Bwrdd Parôl i sicrhau gwrandawiad teg a chynrychiolaeth i garcharorion heb alluedd meddyliol i gymryd rhan yn y broses barôl. | • Bydd yr Adolygiad Pwrpasol o'r Bwrdd Parôl yn cyflwyno ei adroddiad erbyn haf 2019. |

# 2. Methodoleg

## Annibyniaeth y Bwrdd Parôl

37. Mae'n bwysig ystyried ac egluro gwaith yr Adolygiad o'r Rheolau yng nghyd-destun annibyniaeth y Bwrdd Parôl o'r Llywodraeth a'i statws fel corff 'llys' o fath sy'n gwneud penderfyniadau barnwrol am ryddhau rhai carcharorion. Mae'n egwyddor sylfaenol na ellir gweithredu unrhyw fesurau na gwneud unrhyw newidiadau a fyddai'n amharu ar annibyniaeth y Bwrdd. Gallai hynny fentro gwneud ei benderfyniadau'n anghyfreithlon.

38. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheolau ar y gweithdrefnau y dylai'r Bwrdd eu dilyn wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol, ond ni all geisio dylanwadu ar, na rhagnodi sut y dylai'r Bwrdd gyflawni ei gyfrifoldeb o wneud penderfyniadau. Rydym felly wedi bod yn ofalus wrth gyflawni'r Adolygiad hwn i sicrhau bod y mesurau a'r diwygiadau sydd mewn golwg yn parhau i ddiogelu ac atgyfnerthu'r annibyniaeth bwysig honno.

## Dull

39. Rydym wedi ystyried tystiolaeth o sawl ffynhonnell, drwy ddefnyddio adborth o'r 'adolygiad cyntaf', adeiladu ar yr ymrwymiadau a wnaed yn yr adolygiad hwnnw a thrwy dynnu casgliadau o'r ymateb i'r ymgynghori ar y drefn ailystyried. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion barn y Bwrdd Parôl, yr Adran Gwaith Achos Diogelu’r Cyhoedd (PPCS) yn HMPPS, dioddefwyr, ymarferwyr y gyfraith barôl, academyddion a throseddwyr eu hunain. Fe wnaeth y tîm adolygu hefyd ymholiadau manwl i ymarfer a gweithrediad presennol Rheolau'r Bwrdd Parôl gan arsylwi mewn gwrandawiadau a dadansoddi data ar berfformiad.

# 3. Y Drefn Ailystyried

## Y Drefn Ailystyried

**Byddwn yn gwneud darpariaeth yn Rheolau'r Bwrdd Parôl i greu trefn ailystyried a fydd:**

- Yn berthnasol i achosion lle ymddengys bod penderfyniad y Bwrdd Parôl yn gyfreithiol wallus / yn bodloni meini prawf tebyg i rai adolygiad barnwrol (yn anghyfreithlon, afresymol neu'n weithdrefnol annheg).
- Yn berthnasol i benderfyniadau a wnaed ynghylch rhyddhau carcharorion gyda dedfrydau amhenodol (ISP) a charcharorion yn y carchar am Ddedfrydau Penodol Estynedig (EDS).
- Yn darparu bod y partïon yn yr achos parôl (yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r carcharor) yn gallu cyflwyno ceisiadau i'r Bwrdd Parôl.
- Yn caniatáu i ddioddefwyr greu dadl dros gael yr Ysgrifennydd Gwladol i ailystyried penderfyniad drwy gyflwyno sylwadau i'r Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd (PPCS) – gyda gwybodaeth a chymorth gan y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr.
- Yn golygu bod y PPCS yn sgrinio pob penderfyniad rhyddhau cymwys i ganfod unrhyw un lle gellid efallai cyfiawnhau gwneud cais i ailystyried.
- Yn caniatáu cyfnod o hyd at 21 diwrnod calendr (ac eithrio Gwyliau Banc) o ddyddiad y penderfyniad i gyflwyno cais (ni fydd y carcharor fel arfer yn cael ei ryddhau dros y cyfnod hwn).
- Yn darparu bod carcharorion yn gallu gwneud cais i ailystyried yn uniongyrchol i'r Bwrdd Parôl os ydynt yn credu bod penderfyniad i beidio eu rhyddhau'n sylfaenol wallus neu'n anghyfreithlon.
- Yn darparu bod penderfyniadau ar geisiadau i ailystyried yn cael eu gwneud gan farnwr y Bwrdd Parôl, fydd yna'n penderfynu a ddylid cyfeirio'r achos at banel newydd i'w wrando eto a phenderfynu o'r newydd arno, neu a ddylid delio â'r cais mewn ffordd wahanol.

## Rhagarweiniad

40. Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus o blaid creu trefn ailystyried. Mae ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad – a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn – yn nodi'n fanwl y model ar gyfer sut y bydd y drefn yn gweithio ac yn egluro'r rhesymau y tu ôl iddi. Crynhoir y prif agweddau ar hyn yn y bennod hon.

## Adnoddau

41. Roedd y rhai wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad yn poeni, yn ddigon teg, am effaith bosib cyflwyno elfen newydd i'r broses barôl ac yn pwyso ar y Llywodraeth i sicrhau digon o adnoddau ar ei chyfer. Rydym yn cydnabod y pryderon hyn ac wedi bod yn gweithio'n agos a gofalus â rhanddeiliaid allweddol ar ddatblygu'r cynigion hyn i sicrhau eu bod yn deg, realistig ac ymarferol i'w darparu.

42. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bob ffydd yn y Bwrdd Parôl i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac i wneud penderfyniadau teg, diogel a rhesymol am ryddhau carcharorion yn y mwyafrif llethol o achosion. Fodd bynnag, mae achos John Worboys wedi dangos bod penderfyniadau paneli, ambell waith, yn gallu bod yn wallus ac yn yr achosion hynny y byddai'n ddymunol cael trefn i adolygu'r penderfyniadau hynny heb fod angen troi at broses adolygiad barnwrol gostus a hir.

## Y Meini Prawf

43. Bwriadwn fabwysiadu meini prawf tebyg i seiliau adolygiad barnwrol (anghyfreithlon, afresymol neu weithdrefnol annheg) a fyddai'n gosod trothwy uchel ar gyfer ceisiadau i ailystyried – dull a gefnogwyd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Ni fydd yn ddigon bod rhywun yn anghytuno â'r canlyniad, os yw penderfyniad i gwrdd â'r meini prawf ar gyfer ailystyried, bydd angen iddo fod yn gyfreithiol wallus mewn rhyw ffordd. Drwy osod y trothwy uchel hwn a nodi hyn yn gwbl glir, dylai sicrhau nad yw'r Bwrdd Parôl yn cael ei lethu gan geisiadau sy'n gwneud dim ond mynegi anfodlonrwydd â'r penderfyniad a chanolbwyntio ar y nifer fach o achosion sydd efallai'n wirioneddol wallus.

44. Penderfynwyd hefyd cyfyngu'r drefn ailystyried i benderfyniadau rhyddhau ar gyfer Carcharorion gyda Dedfrydau Amhenodol a Dedfrydau Penodol Estynedig (gan gynnwys ail-ryddhau ar ôl galw'n ôl i garchar) - hynny yw, y troseddwyr treisgar a rhywiol mwyaf difrifol. Ni fydd yn berthnasol i benderfyniadau eraill y Bwrdd Parôl, fel y dylid ail-ryddhau carcharorion gyda dedfrydau penodol safonol ar ôl eu galw'n ôl i garchar am dorri amodau eu trwydded.

45. Sylweddolwn na fydd hyn yn mynd mor bell ag y byddai rhai'n ei ddymuno. Fodd bynnag daethom i'r casgliad na fyddai meini prawf mwy cyffredinol, a fyddai'n caniatáu herio ar sail anghytuno â'r canlyniad, yn gweithio. Mae system apelio ar sail haeddiant yn rhywbeth y gellid edrych arni eto yn y dyfodol, ond byddai angen deddfwriaeth sylfaenol.

## Mynediad i Ddioddefwyr

46. Rydym wedi meddwl yn ofalus sut orau i alluogi dioddefwyr i gyfranogi yn y drefn ailystyried gan gasglu y dylent gyflwyno eu sylwadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yr Adran Gwaith Achos Diogelu’r Cyhoedd (PPCS), ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yw'r bobl orau i asesu a oes digon o dystiolaeth i awgrymu bod penderfyniad parôl efallai'n wallus, oherwydd bod ganddynt fynediad at yr holl dystiolaeth ysgrifenedig am y penderfyniad, ac at arbenigedd cyfreithiol lle bo angen. Yn y model sydd mewn golwg gennym, bydd dioddefwyr yn gofyn i'r PPCS edrych ar y posibilrwydd o wneud cais i ailystyried i'r Bwrdd Parôl a thrwy wneud hynny bydd ond angen iddynt nodi eu pryderon. Bwriadwn wneud y broses hon yn un mor ddidrafferth â phosib drwy roi ffurflen i ddioddefwyr ar gyfer nodi eu pryderon, a chanllawiau clir i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer ailystyried. Bydd Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr hefyd

yn gallu rhoi cyngor i ddioddefwyr ar sut fydd y broses yn gweithio, a'r amserlen ddisgwyliedig.

47. Drwy wneud hyn, ni fydd angen i ddioddefwyr fod â dealltwriaeth fanwl o'r broses barôl na gorfod cyflwyno dadl gyfreithiol a allai fod yn gymhleth i ddefnyddio'r broses. Byddai hefyd yn golygu na fyddai angen i ddioddefwyr benodi cynrychiolydd cyfreithiol, yn wahanol i adolygiad barnwrol. Mater i'r PPCS fydd gwneud cais i ailystyried i'r Bwrdd Parôl mewn achosion lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod achos posib i'w ddadlau.

## Ffenestr Gwneud Cais

48. Rydym wedi penderfynu y bydd 'ffenestr gwneud cais' o 21 diwrnod calendr (heb gynnwys gwyliau banc) o'r dyddiad y bydd canlyniad y gwrandawiad parôl yn cael ei hysbysu i'r partïon. Ni fydd carcharorion fel arfer yn cael eu rhyddhau yn ystod y ffenestr hon oni bai na fydd cais i ailystyried yn cael ei wneud cyn diwedd y cyfnod, ac os felly rhaid wedyn symud ymlaen i ryddhau.

## Ceisiadau gan Garcharorion

49. Gall carcharorion hefyd wneud cais i ailystyried – os ydynt yn credu bod y penderfyniad i beidio eu rhyddhau'n wallus – bydd y ceisiadau hynny'n mynd yn syth i'r Bwrdd Parôl.

## Penderfyniadau Barnwrol

50. Bydd y model sydd mewn golwg yn un barnwrol fel y cynigiwn yn yr ymgynghoriad – gydag aelodau barnwrol o'r Bwrdd Parôl yn cael eu penodi i wneud penderfyniadau ar geisiadau a gyflwynir i'r Bwrdd Parôl i'w hailystyried.

## Gwrandawiadau Cyhoeddus

51. Daethom i'r casgliad nad yw gwrandawiadau cyhoeddus ar gyfer parôl yn hyfyw ar hyn o bryd. Er bod gan lysoedd a gwasanaethau tribiwnlys eraill wrandawiadau cyhoeddus, mae rhwystrau preifatrwydd, diogelwch ac ymarferol pwysig mewn achosion parôl.

52. Fodd bynnag, y bwriad yw bod y drefn ailystyried yn un mor agored a thryloyw â phosib. Bydd dioddefwyr yn derbyn gwybodaeth a chanllawiau cyn ac yn ystod y broses, a rhoddir rhesymau llawn am bob penderfyniad - gan gynnwys lle penderfynir peidio â symud ymlaen i wneud cais a lle bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan farnwr Bwrdd Parôl mewn ymateb i gais a gyflwynwyd. Bydd enw'r aelod o'r Bwrdd Parôl sy'n gwneud y penderfyniad ar gais i ailystyried yn cael ei roi yn y rhesymau ysgrifenedig.

## Gweithredu

53. Bydd y drefn yn cael ei chyflwyno drwy ychwanegu darpariaethau newydd i Reolau'r Bwrdd Parôl. I wneud hyn, bydd angen rhoi Offeryn Statudol gerbron y Senedd a disgwyliwn i hyn ddigwydd yn y misoedd nesaf. Yn y cyfamser, bwriadwn wneud y gwaith angenrheidiol i baratoi ar gyfer gweithredu'r drefn - gan gynnwys drwy ddatblygu gwaith papur, canllawiau a hyfforddiant newydd a rhoi'r adnoddau angenrheidiol yn eu lle.

# 4. Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Dioddefwyr

## Ymgysylltu a chyfathrebu gyda dioddefwyr

**I wella profiad dioddefwyr o'r broses barôl:**

### Mesurau sydd eisoes ar waith

- Canllawiau newydd i fod yn fwy hyblyg wrth gynnig cyswllt drwy ddisgresiwn, fel y gall Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr (VLO) gynnig cyswllt i gategorïau eraill o ddioddefwyr.
- Hyfforddiant fel bod swyddogion VLO yn cyfathrebu'n well gyda dioddefwyr, gan gynnwys deall profiad y dioddefwr.
- Ei gwneud yn haws i ddioddefwyr ymuno neu beidio â'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS), nes ymlaen yn nedfryd y carcharor.
- Rhoi eglurhad mwy cynhwysfawr o Ddatganiad Personol y Dioddefwr (VPS) a'i bwrpas mewn cyd-destun parôl.
- Gwella'r cynnwys ar-lein am y VCS, ei fanteision a sut i ymuno, a blwch post pwrpasol ar gyfer ymholiadau VCS.
- Ymrwymiadau yn y Strategaeth Dioddefwyr i gryfhau hawliau dioddefwyr o ran: y rhagdybiaeth bod pob Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS) yn cael ei ddarllen / wrando; amddiffyn dioddefwyr yn well rhag gwybodaeth a ddatgelir i garcharorion; ymgysylltu gyda / gwybodaeth well i ddioddefwyr drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol.

### Mesurau ar gyfer y dyfodol

- Rhoi hyfforddiant a chanllawiau pellach i swyddogion VLO i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi dioddefwyr – yn enwedig ar y drefn ailystyried newydd.
- Gwella dulliau cyfathrebu fel y bo'n haws tracio gohebiaeth a hysbysu dioddefwyr (e.e. drwy neges testun) pan fydd llythyr neu e-bost ar ei ffordd.
- Ystyried cysylltu systemau rheolaeth achos a ddefnyddir gan swyddogion VLO i systemau eraill, fel eu bod yn cael eu diweddaru'n awtomatig am y troseddwr.
- Edrych ar ffyrdd o roi'r opsiwn i fwy o ddioddefwyr gael cyflwyno eu datganiad VPS o bell, heb orfod mynychu'r carchar.
- Codeiddio hawliau dioddefwyr o fewn Rheolau'r Bwrdd Parôl (unwaith y cwblheir yr ymgynghori a'r diwygiadau i'r Cod Dioddefwyr).

## Rhagarweiniad

54. Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y mesurau a gymerwyd a'r cynlluniau ar gyfer diwygiadau pellach i sicrhau bod y dioddefwyr, teuluoedd y dioddefwyr a'r carcharorion sy'n mynd drwy'r broses barôl yn derbyn y cymorth a'r wybodaeth iawn, ar yr amser iawn ac yn cael cyfle i leisio barn.

55. Edrychodd yr adolygiad cyntaf ar brofiad a barn dioddefwyr gan ddatgelu amryw o bryderon ac anfodlonrwydd â'r ffordd yr oedd y system yn gweithio. Fe wnaed nifer o ymrwymiadau i wella'r sefyllfa ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gyflawni'r ymrwymiadau hynny.

56. Mae'r rhaglen welliannau'n cynnwys: ymestyn y cynllun VCS i fwy o ddioddefwyr; hyfforddiant newydd i swyddogion VLO; ei gwneud yn haws i ddioddefwyr ymuno â'r cynllun VCS nes ymlaen mewn dedfryd; gwybodaeth a chyngor mwy cynhwysfawr am Ddatganiad Personol y Dioddefwr (VPS) a'i bwrpas; cynnwys ar-lein gwell am y VCS; cyfathrebu'n well â dioddefwyr; a chysylltu systemau rheolaeth achosion fel bod swyddogion VLO yn cael eu diweddaru'n awtomatig am ddioddefwyr.

57. Ar ben hynny, mae'r Strategaeth Dioddefwyr a gyhoeddwyd ar 10 Medi 2018 yn cynnwys ymrwymiadau gan gynnwys gwreiddio o fewn y Cod Dioddefwyr y rhagdybiaeth bod dioddefwyr sydd am wneud hynny'n gallu darllen eu VPS, neu rywun i'w ddarllen ar eu rhan, oni bai fod rheswm da dros beidio, fel materion diogelwch; ac ystyried a oes sgôp i gyfyngu'r wybodaeth a roddir i'r troseddwr os bydd dioddefwr yn gofyn am amodau trwydded.

58. Ond yn fwy cyffredinol, mae'n bwysig cael dull cynhwysfawr, cydgysylltiedig traws-system o ymgysylltu a chyfathrebu gyda dioddefwyr – a hyn yw nod y Strategaeth Dioddefwyr. Mae hyn yn golygu sicrhau y rhoddir y wybodaeth a'r gefnogaeth iawn ar ddechrau'r broses cyfiawnder troseddol (ar y pwynt cyhuddo, erlyn a dedfrydu) a thrwy gydol siwrne'r troseddwr drwy'r system at bwynt eu rhyddhau ar drwydded, ac ar ôl hynny.

59. Dylai fod neges glir a chyson am yr hyn y mae dedfryd yn ei feddwl a sut y mae'n gweithio. Mae peth o'r adborth ar brofiad dioddefwyr o'r broses barôl yn deillio'n ôl i'r wybodaeth a gawsant ar bwynt dedfrydu'r troseddwr, a'u dealltwriaeth o sut a phryd y bydd y carcharor efallai'n cael ei ryddhau. Er enghraifft mae'n ddi-fudd bod dioddefwr yn cael ei hysbysu na fydd carcharor gyda dedfryd amhenodol byth efallai'n cael ei ryddhau a bod difrifoldeb eu troseddau'n golygu bod parôl yn annhebygol o gael ei roi unwaith y bydd y carcharor wedi treulio'r amser lleiaf sy'n ofynnol dan glo yn ôl dedfryd y barnwr. Er y gallai'r wybodaeth yma fod yn gywir i raddau, gall hefyd roi camargraff i ddioddefwyr sy'n parhau i fyny at y pwynt yn y ddedfryd pan fydd y Bwrdd Parôl yn ystyried rhyddhau'r carcharor.

60. Yn yr amgylchiadau hyn, nid yw'n syndod bod gan ddioddefwyr yr argraff bod y broses barôl yn anodd iawn. Rhaid bod yn glir o'r dechrau, felly, ynghylch beth y mae'r ddedfryd yn ei feddwl a sut y mae rhyddhau ar barôl yn gweithio. Hynny yw, nad yw cadw'r carcharor dan glo ar ôl treulio'r amser lleiaf sy'n ofynnol yn ôl dedfryd y barnwr yn fater o barhau i gosbi'r carcharor am y troseddau ond yn ymwneud â risg bresennol y carcharor i'r cyhoedd pan gyrhaeddir y pwynt hwnnw yn y ddedfryd – yn aml iawn flynyddoedd lawer ar ôl dedfrydu. Gellir ond cyfiawnhau cadw carcharor dan glo'n gyfreithiol ar ôl y pwynt hwnnw os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn parhau i amddiffyn y cyhoedd - sy'n asesiad anodd i'r Bwrdd Parôl ei wneud.

61. O dan y Strategaeth Dioddefwyr, bydd dull mwy cydgysylltiedig o gael cyswllt a rhoi cymorth i ddioddefwyr drwy'r broses a pharhad gwell o ran y bobl y bydd dioddefwyr yn ymgysylltu â nhw. Ond mae rhai mesurau penodol i geisio gwella profiad dioddefwyr o'r system barôl, ac eglurwn y rhain yn fwy manwl isod.

## Hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr

62. Roedd yn glir o waith yr adolygiad cyntaf bod rôl swyddogion VLO yn greiddiol i ddarparu'r cynllun VCS yn llwyddiannus. Lleisiwyd hyn yn gryf ym marn y dioddefwyr a gasglwyd gan y Comisiynydd Dioddefwyr ac yn ymchwiliad Arolygiaeth Prawf EM o broses a pholisi'r VCS yn achos *Worboys*.

63. Fe wnaethom ymrwymo, felly, i sicrhau bod gan swyddogion VLO y wybodaeth, y sgiliau a'r systemau sydd ei angen arnynt i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i ddioddefwyr. Fel rhan o hynny, datblygwyd rhaglen o hyfforddiant newydd sbon ar gyfer swyddogion VLO i gynnwys elfen benodol ar ddeall profiad y dioddefwr, i'w darparu gan fudiad cymorth i ddioddefwyr. Mae modiwl arall hefyd yn bwysig ar brosesau perthnasol y system cyfiawnder troseddol ehangach i sicrhau bod y gwahanol wasanaethau ac asiantaethau'n cydweithio a deall eu rôl o roi gwybodaeth a chymorth i ddioddefwyr (e.e. cysylltiadau rhwng yr heddlu, Unedau Gofal Tystion (WCU) y CPS a Swyddogion VLO.

64. Mae gweithlyfr a hyfforddiant wyneb yn wyneb i swyddogion VLO wedi eu datblygu, a chynllun darparu yn ei le. Cafodd y gweithlyfr ei lansio ddiwedd Awst 2018 a'r hyfforddiant wyneb yn wyneb ei dreialu gan Goleg y Gwasanaeth Carchardai ym mis Medi. Cynhaliwyd sioeau teithiol ar gyfer saith Is-adran y NPS dros yr hydref, gyda mewnbwn gan nifer o asiantaethau a sefydliadau'n cynnwys y Bwrdd Parôl a Chymorth i Ddioddefwyr.

## Y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS)

### *Gwella gwybodaeth / ymwybyddiaeth o'r VCS*

65. Fe wnaethom ymrwymo i sicrhau bod dioddefwyr, asiantaethau eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol yn derbyn mwy a gwell gwybodaeth am y VCS, ei fanteision a sut i ymuno.

66. Mae manylion am y VCS wedi eu diweddaru ar GOV.UK i fod yn gliriach o ran beth y gall y cynllun ei gynnig i ddioddefwyr. Mae darpariaeth hefyd wedi'i gwneud i gael blwch post pwrpasol ar gyfer ymholiadau VCS fel bod pobl yn gallu ymuno â'r cynllun ar ôl penderfynu peidio cyn hynny a newid eu meddwl, neu os na ofynnwyd iddynt ar ôl i'r troseddwr gael ei ddedfrydu. Gall dioddefwyr yn y VCS yn awr ofyn am wybodaeth yn y dull cyfathrebu sydd orau ganddynt (h.y. e-bost, ffôn symudol, llythyr, neges testun) gan ei gwneud yn haws i ddioddefwyr ddiweddaru eu manylion cyswllt a sicrhau eu bod yn derbyn gohebiaeth gan swyddogion VLO yn brydlon.

67. Ychwanegwyd gwybodaeth hefyd at adran y Bwrdd Parôl yn GOV.UK yn egluro sut y gall aelod o'r cyhoedd ofyn am grynodeb o benderfyniad y Bwrdd Parôl. Rydym wedi egluro sut y dylai dioddefwyr sy'n rhan o'r cynllun gysylltu â'u swyddog VLO i gyflwyno eu cais a hefyd wedi cynnwys cyfeiriad e-bost ymholiadau VCS rhag ofn y bydd rhywun eisiau ymuno â'r cynllun.

### *Gwella mynediad at y VCS*

68. Cawsom fod angen symleiddio prosesau'r VCS, yn enwedig ar y pwynt atgyfeirio, a nodi'n glir bod dioddefwyr yn gallu ymuno â'r cynllun ar unrhyw bwynt yn y broses. Mae hyn yn ymateb i bwynt a godwyd gan yr adolygiad cyntaf bod dioddefwyr weithiau'n cael trafferth gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ymuno â'r VCS neu beidio, yn enwedig ar ddechrau'r broses yn syth ar ôl y treial a hwythau dal wedi cynhyrfu efallai.

69. Bydd y wybodaeth, canllawiau a'r cyngor i ddioddefwyr am y VCS - gan gynnwys y cynnwys ar-lein newydd y soniwyd amdano uchod - yn ei gwneud yn haws gobeithio iddynt wneud penderfyniadau gwybodus am ymuno. A thrwy nodi'n glir i ddioddefwyr y medrant ymuno a gadael y cynllun ar unrhyw adeg, bydd hefyd yn sicrhau bod dioddefwyr yn gallu ymuno ar yr amser sy'n iawn iddynt.

70. Roedd yr adolygiad cyntaf hefyd yn codi'r syniad a gefnogwyd gan y Comisiynydd Dioddefwyr y dylid cydleoli swyddogion VLO gyda gwasanaethau cymorth eraill, gan gydnabod bod llawer o gynlluniau o gwmpas y wlad lle'r oedd hyn yn cael ei dreialu. Gyda chyfarpar TG newydd, mae Unedau Cyswllt Dioddefwyr (VLU) y NPS hefyd yn gallu gweithio'n fwy hyblyg. Mae un model sydd wedi sefydlu ers tro lle mae unedau VLU wedi eu cydleoli â'r Uned Gofal Tystion a Chymorth i Ddioddefwyr, a Chyngor ar Bopeth, gan hyrwyddo mwy o gydweithio a rhannu gwybodaeth. Mae nifer fach o gynlluniau peilot mewn ardaloedd eraill hefyd, i ganfod pa fanteision a allai fod i ddioddefwyr. Bydd HMPPS yn parhau i ystyried y posibilrwydd o gydleoli mewn ardaloedd eraill, neu'r cyfle i weithio mewn swyddfeydd ar y cyd.

71. Un maes arall i'w wella oedd cydweithio gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), yn enwedig gydag Unedau Gofal Tystion, i sicrhau bod eu staff yn glir ynghylch y VCS a'r broses o atgyfeirio dioddefwyr i'r cynllun. Ymrwymodd y Strategaeth Dioddefwyr i adolygu'r canllawiau a roddir i Unedau Gofal Tystion i wella atgyfeirio at wasanaethau cymorth ar ôl achosion treial. Mae'r heddlu a'r CPS yn cynnal adolygiad ar y cyd o unedau WCU ac fel rhan o'r adolygiad hwnnw'n edrych ar sut i wella atgyfeirio i'r VCS.

### *Cyfathrebu'n brydlon*

72. Elfen allweddol arall o ddarparu gwasanaeth da o dan y VCS yw drwy gysylltu'n briodol a phrydlon â dioddefwyr ac yn y ffordd sydd fwyaf hwylus iddynt. Gofynnir i ddioddefwyr beth yw'r dull cyfathrebu sydd orau ganddynt ac anogir hwynt i ddarparu amrywiaeth o fanylion cyswllt (fel cyfeiriadau e-bost a rhif ffôn symudol) i sicrhau cyswllt prydlon lle bo angen ac i osgoi colli cysylltiad dros amser.

73. I wella hyn ymhellach, rydym yn edrych i weld sut y gallwn uwchraddio ac ailwampio'r system rheolaeth achosion a ddefnyddir gan y VCS er mwyn gwella hyder swyddogion VLO bod dioddefwyr yn derbyn gwybodaeth, er enghraifft drwy dracio e-byst ac anfon negeseuon testun yn ogystal â llythyrau lle bo hynny'n briodol.

74. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ystyried cysylltu system rheolaeth achos y cynllun VCS i systemau eraill gan HMPPS er mwyn diweddaru swyddogion VLO yn awtomatig o unrhyw newid yn amgylchiadau troseddwyr, fel newid lleoliad. Bydd swyddog VLO felly'n gallu gofyn yn rhagweithiol am wybodaeth gan weithwyr achos HMPPS a diweddaru dioddefwyr wrth i newidiadau ddigwydd.

### *Canllawiau ar gyswllt drwy ddisgresiwn*

75. Adroddwyd yn yr adolygiad cyntaf farn y Comisiynydd Dioddefwyr a ddywedodd fod y canllawiau ar gynnig cyswllt drwy ddisgresiwn i ddioddefwyr nad oeddent yn y cynllun statudol yn cyfyngu'n ormodol. Fe wnaethom ymrwymo i ddiwygio'r canllawiau fel y gallai swyddogion VLO gynnig y VCS i gategorïau eraill o ddioddefwyr lle bo'n briodol. Bydd y canllawiau newydd yn nodi categorïau clir o ddioddefwyr y dylid cynnig y VCS bob tro iddynt, er enghraifft dioddefwyr mewn achosion lle mae cyhuddiad difrifol wedi'i orchymyn i gadw ar ffeil. Bydd y canllawiau newydd hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i swyddogion VLO i gynnig gwybodaeth i gategorïau eraill o ddioddefwyr gan ddibynnu ar broffil yr achos, yr effaith ar yr unigolyn a barn yr heddlu a'r CPS.

76. Mae gwaith wedi'i wneud mewn cyswllt â'r heddlu a'r CPS i oleuo'r hyn y dylai'r canllawiau newydd ei ddweud. Mae protocolau ar atgyfeirio achosion o'r Unedau Gofal Tystion (WCU) i'r cynllun VCS wedi eu harchwilio ac enghreifftiau o arfer da wedi eu hadnabod.

77. Mae'r polisi ar fin ei gwblhau a bwriadwn gyhoeddi canllawiau newydd ar ddechrau 2019. Yn y cyfamser, mae Tîm Dioddefwyr HMPPS yn adolygu pob cais am gyswllt drwy ddisgresiwn yn erbyn y canllawiau newydd arfaethedig.

## Hawliau Dioddefwyr

### *Ceisiadau dioddefwyr am amodau trwydded*

78. Pryder arall a godwyd gan yr adolygiad cyntaf oedd bod angen rhoi eglurhad gwell i ddioddefwyr os nad oedd y Bwrdd Parôl yn cytuno i'w cais am gynnwys amodau penodol ar drwydded rhyddhau troseddwr.

79. Rydym wedi gweithio gyda'r Bwrdd Parôl i sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybod i ba raddau yr ystyriwyd eu sylwadau gan banel Bwrdd Parôl, ac os nad yw cais dioddefwr i gynnwys amod penodol ar drwydded yn cael ei dderbyn yna bod y rhesymau'n cael eu nodi'n glir a manwl.

80. Mae hyn wedi'i gynnwys fel rhan o'r gwaith gan y Bwrdd Parôl i roi crynodeb o benderfyniadau i ddioddefwyr, rhywbeth y mae'r Bwrdd wedi bod yn ei wneud ers y daeth y newid Rheol i rym ar 22 Mai 2018. Mae'r crynodebau'n cynnwys gwybodaeth sy'n cadarnhau bod y panel wedi gwrando neu ddarllen y VPS. Pan anfonir crynodeb o benderfyniad at y VLO, mae'r e-bost cysylltiedig yn cynnwys gwybodaeth ac yn egluro pa amodau trwydded gan y dioddefwr y penderfynodd y panel eu bod yn briodol.

81. I helpu i gynorthwyo a thywys dioddefwyr ar y math o amodau trwydded a allai fod yn bosib a phriodol, mae canllawiau newydd yn cael eu datblygu ar gyfer y NPS, a bydd templed newydd i ofyn am amodau'n cael ei ddarparu.

82. Mae'r Strategaeth Dioddefwyr hefyd yn ymrwymo i ystyried a oes sgôp i gyfyngu'r wybodaeth a roddir i droseddwr pan fydd dioddefwr yn gofyn am amodau trwydded.

### *Datganiad Personol y Dioddefwr (VPS) a'i bwrpas*

83. Yn ôl yr adolygiad cyntaf, teimlai llawer o ddioddefwyr na chafodd eu datganiadau VPS eu hystyried ac nad oedd yn ddigon clir beth oedd pwrpas y VPS yn y broses

barôl. Mewn ymateb i hynny, mae gwefan y Bwrdd Parôl yn awr yn cynnwys adran bwrpasol ar gyfer dioddefwyr yn egluro pwrpas y VPS a sut y'i defnyddir fel rhan o'r broses barôl. Mae'r MoJ hefyd wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar y VPS ym Medi 2018, sy'n cael eu hyrwyddo yn rhan honno o'r wefan.

84. Mae gan y Bwrdd Parôl hefyd dudalen ar y wefan 'Victims Choice' yn egluro rôl y Bwrdd Parôl ac yn rhoi dolenni at fwy o ganllawiau - ac mae hefyd yn datblygu fideo i ddioddefwyr fydd yn egluro sut i wneud datganiad VPS. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn diwygio a diweddaru eu llyfryn gwybodaeth i ddioddefwyr (a gyhoeddwyd diwethaf yn 2014). Mae'r digwyddiadau briffio ar gyfer swyddogion VLO o gwmpas y wlad wedi cynnwys mewnbwn gan y Bwrdd yn egluro'r pethau i'w hystyried wrth gynorthwyo dioddefwr i wneud VPS.

85. Lleisiodd dioddefwyr hefyd bryder y gallai'r rhagdybiaeth bresennol y bydd y VPS yn cael ei ddatgelu i'r troseddwr gymell rhai dioddefwyr i beidio â gwneud VPS – gan awgrymu gwelliant pellach o newid y rheolau i amddiffyn dioddefwyr yn well a thawelu eu meddyliau ar hyn.

86. Oherwydd y gallai fod angen diwygio'r Cod Dioddefwyr i gyflwyno'r newidiadau hyn, penderfynwyd trafod y materion hyn yn fwy manwl fel rhan o weithio ar y Strategaeth Dioddefwyr. Mae'r Strategaeth bellach yn cynnwys ymrwymiad, fel rhan o'r newidiadau i'r Cod Dioddefwyr, i edrych ar hawliau'n ymwneud â datganiadau VPS a'u datgelu.

87. Yn y cyfamser, byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael gwybod yn fuan am eu hawl i ofyn i'w VPS beidio â chael ei ddatgelu. Mae swyddogion VLO yn hysbysu dioddefwyr ar ddechrau adolygiad parôl y carcharor y medrant ofyn i'w VPS beidio â chael ei ddatgelu. Byddwn yn diwygio'r Rheolau i osod terfyn amser o wyth wythnos cyn gwrandawiad llafar i sicrhau bod ceisiadau i beidio â datgelu'n cael eu derbyn mewn pryd - a bydd swyddogion VLO yn sicrhau bod dioddefwyr yn gwbl ymwybodol o bryd y bydd angen iddynt wneud cais o'r fath os ydynt am wneud hynny. Rydym yn cydnabod na fydd bob amser yn bosib i ddioddefwyr wneud penderfyniad ar gyflwyno VPS, ac unrhyw gais i beidio â datgelu, o fewn y terfynau amser hyn ond bydd gan gadeirydd y panel ddisgresiwn i ganiatáu ceisiadau hwyr lle bo hynny'n briodol.

88. Rydym hefyd wedi ymrwymo i'w gwneud yn haws i ddioddefwyr gyflwyno eu datganiadau VPS mewn gwrandawiadau llafar. Rydym yn symud ymlaen gyda gwaith rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r Bwrdd Parôl i roi'r opsiwn i fwy o ddioddefwyr gael cyflwyno eu VPS o bell (e.e. drwy dechnoleg fideo) heb orfod mynychu'r carchar.

# 5. System Dryloyw ac Agored

## System dryloyw ac agored

### Gwneud y system barôl yn fwy agored a thryloyw:

| Mesurau sydd eisoes ar waith | Mesurau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|
| • Mae Rheolau'r Bwrdd Parôl wedi eu diwygio fel bod dioddefwyr a phartïon eraill yn gallu gofyn am grynodeb o benderfyniadau.<br>• Mae'r Bwrdd Parôl wedi gwella a gwneud y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ei waith a'r broses barôl, fel y canllawiau diwygiedig ar Wrandawiadau Llafar yn Nhachwedd 2018, yn fwy hygyrch i bawb. | • Bydd y Bwrdd Parôl yn datblygu a chyhoeddi canllawiau ar Ymarfer Safonol i roi gwybodaeth glir a chyhoeddus am sut fath o wybodaeth a phethau sy'n cael eu hystyried, a sut y mae penderfyniadau i ryddhau'n cael eu gwneud.<br>• Bwriedir gwella eto'r wybodaeth i'r cyhoedd am sut y mae parôl yn gweithio.<br>• Bwriedir casglu adborth / barn y cyhoedd i asesu effaith yr ymdrechion i fod yn fwy tryloyw a beth yn fwy y gellir ei wneud.<br>• Byddwn yn parhau i weithio gyda'r cyfryngau darlledu a phrint i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r system barôl. |

### Crynodeb o Benderfyniadau

89. O fis Mai 2018, fe wnaethom ddiwygio Rheolau'r Bwrdd Parôl fel y gallai dioddefwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd ofyn am grynodeb o benderfyniadau gan y Bwrdd Parôl, yn egluro'r rhesymau am eu penderfyniadau. Roedd hyn yn gam pwysig o ran gwneud achosion parôl yn fwy agored ac ers hynny mae dros 800 o grynodebau wedi eu darparu. Ers dechrau gwneud hyn, mae'r Bwrdd Parôl wedi bod yn gweithio â'r panel o ysgrifenwyr crynodebau i wella ansawdd y crynodebau, ar sail adborth gan ddioddefwyr a swyddogion VLO. Maen nhw hefyd wedi gwneud y broses yn fwy prydlon, gyda'r rhan fwyaf o grynodebau ar gael o fewn pythefnos i'r penderfyniad rhyddhau.

90. Gofynnir am y rhan fwyaf o grynodebau cyn i'r gwrandawiad ddigwydd sy'n awgrymu bod gan y bobl sy'n gofyn amdanynt ddiddordeb mewn dysgu mwy am y broses, beth bynnag yw'r penderfyniad terfynol. Defnyddiwyd dyfyniadau o'r crynodebau gan y wasg i ychwanegu manylion a chyd-destun wrth ohebu ar yr achosion hyn. Diben y

crynodebau yw rhoi mwy o fanylion am y penderfyniad yn hytrach na chyfleu unrhyw sylwadau gan y naill ochr neu'r llall. Maent yn cael eu gwirio'n drwyadl i sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth sensitif am unrhyw un sy'n rhan o'r achos yn cael ei gwneud yn gyhoeddus.

91. Byddwn yn parhau i adolygu sut y caiff crynodeb o benderfyniadau eu darparu o dan y Rheol 25 newydd ac a oes angen unrhyw newid pellach i sicrhau bod y tryloywder a oedd mewn golwg gyda'r crynodebau'n gweithredu mor effeithiol â phosib.

## Gwella Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

### *Cyfathrebu*

92. Mae'r Bwrdd Parôl wedi bod yn chwilio'n frwd am gyfleoedd i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o barôl a gwaith y Bwrdd. Maen nhw wedi ail-ddylunio eu gwefan i'w gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth allweddol, ac wedi bod yn gweithio â'r cyfryngau i gyrraedd gymaint o bobl â phosib, fel drwy'r rhaglen '*Parole: A Calculated Risk*' ar Radio 4. Mae blog rheolaidd gan Brif Weithredwr y Bwrdd yn diweddaru a sylwebu ar y prif faterion a'r datblygiadau sy'n effeithio ar waith y Bwrdd Parôl. Hefyd, mae'r Bwrdd yn parhau i ddiwygio ei wybodaeth ar gyfer dioddefwyr ac wrthi'n gweithio ar gynhyrchu fideo animeiddio sy'n egluro'r broses barôl.

### *Mynediad y cyhoedd at wrandawiadau*

93. Daethom i'r casgliad nad yw gwrandawiadau cyhoeddus ar gyfer parôl yn hyfyw ar hyn o bryd o gofio eu bod yn cael eu cynnal mewn carchardai. Er bod gan lysoedd a gwasanaethau tribiwnlys eraill wrandawiadau cyhoeddus, mae rhwystrau preifatrwydd, diogelwch ac ymarferol pwysig mewn achosion parôl. Rydym yn fodlon bod y trefniadau presennol yn gadarn a chymesur o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal gwrandawiadau mewn unedau diogel. Felly nid ydym yn cynnig diwygio'r Rheolau presennol ar bresenoldeb arsylwyr a thystion.

94. Er hynny mae'n bwysig pwysleisio, o dan y Rheolau presennol, bod cadeirydd y panel yn gallu derbyn unrhyw un i wrandawiad, ar gais y parti neu'n uniongyrchol. Mae'r Bwrdd Parôl eisoes wedi ymrwymo i ymestyn hyn i ffigurau cyfryngau allweddol yn ei Gynllun Busnes 2018/19. Felly er nad yw gwrandawiadau'n gyffredinol ar agor i'r cyhoedd, nid ydynt yn gwbl gaeedig na 'chyfrinachol' ychwaith, ac mewn achosion priodol wedi eu cymeradwyo gan gadeirydd y panel, gall arsylwyr sydd â budd cyfreithlon yn yr achos fynychu.

### *Ymarfer Safonol*

95. Mae'r Bwrdd Parôl wedi ymrwymo i gynhyrchu canllawiau Ymarfer Safonol i gyd-fynd â'i ddyletswyddau statudol gan hysbysu sut y mae'n dilyn y gweithdrefnau o dan y Rheolau. Bydd yn rhoi manylion pellach ar y prosesau a'r dulliau y mae'r Bwrdd yn eu dilyn ynghyd â chyngor i aelodau wrth benderfynu mathau penodol o achosion ac wrth ddelio gyda cheisiadau i'r Bwrdd. Bydd y dogfennau Ymarfer Safonol ar gael i'r cyhoedd eu darllen ar wefan y Bwrdd a bydd y broses o ddatblygu a diwygio canllawiau yn y dyfodol yn cael ei hymgorffori yn nhrefniadau llywodraethu'r Bwrdd.

# 6. Gofynion Tystiolaeth

## Gofynion tystiolaeth

**Gwneud yn siŵr bod y Bwrdd Parôl yn derbyn ac yn ystyried yn llawn yr holl dystiolaeth berthnasol:**

| Mesurau sydd eisoes ar waith | Mesurau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|
| • Wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau newydd i staff HMPPS ar baratoi ffeiliau coflen i'r Bwrdd Parôl, i nodi'n glir beth sydd i'w gynnwys - gan gynnwys tystiolaeth am droseddau dieuogfarn.<br>• Wedi cyflwyno gwiriadau rheoli newydd ar gynnwys ffeiliau coflen e.e. i sicrhau bod sylwadau dedfrydu'r barnwr wedi eu cynnwys neu unrhyw honiadau o droseddu ehangach.<br>• Mae'r Bwrdd Parôl wedi cynhyrchu canllawiau newydd a chynnal digwyddiadau i aelodau ar sut y dylai paneli ymdrin â honiadau o droseddu ehangach – gan sicrhau bod paneli'n gofyn am, ac ystyried yr holl dystiolaeth / adroddiadau / tystion angenrheidiol. | • Bydd y Bwrdd Parôl yn cynhyrchu a chyhoeddi Cyfarwyddiadau Safonol ar dystiolaeth i nodi'n glir a chyhoeddus beth yw'r gofynion safonol ar gyfer achosion parôl.<br>• Bydd y dogfennau y bydd angen eu rhoi i'r panel yn y ffeil goflen graidd wedi eu hadlewyrchu'n ffurfiol mewn canllawiau / cyfarwyddyd yn y dyfodol.<br>• Bwriedir cyflwyno Rheolau newydd ar gyflwyno a throsglwyddo tystiolaeth.<br>• Bwriedir cyflwyno amserlen newydd ar gyfer ceisiadau peidio â datgelu fel bod pob mater datgelu'n cael ei ddatrys mewn da bryd cyn y gwrandawiad. |

### Rhagarweiniad

96. Mae'n gwbl hanfodol bod gan bob panel Bwrdd Parôl gyfle i ystyried yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol i'r achos cyn y gall asesu risg yn iawn. I'r perwyl hwn, rydym wedi rhoi gweithdrefnau newydd yn eu lle i sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cynhyrchu ar amser ac i safon dda; bod yr holl dystiolaeth berthnasol yn cael ei gweld ar y cyfle cyntaf posib; a bod eglurder o ran pryd y gellir rhannu tystiolaeth gyda'r holl bartïon.

### Tystiolaeth a Ystyrir gan y Panel

***Troseddau dieuogfarn***

97. Y ddealltwriaeth ar y pryd a'r dull cyn y dyfarniad yn adolygiad barnwrol *Worboys* – o fewn HMPPS ac yn y Bwrdd Parôl – oedd na ddylid ystyried tystiolaeth am

droseddau dieuogfarn wrth benderfynu a ddylid rhyddhau carcharor neu beidio. Roedd hyn ar y sail os na phrofwyd i safon droseddol bod y troseddau hyn wedi eu cyflawni ac nad oeddent yn rhan o'r ddedfryd yr oedd y carcharor yn ei threulio, yna na ddylid eu hystyried wrth benderfynu a oedd yn ddiogel rhyddhau'r carcharor o'r ddedfryd honno neu beidio.

98. Ond roedd achos *Worboys* yn un eithriadol iawn yn hyn o beth gan arwain y Llys i gasglu, yn amgylchiadau'r achos arbennig hwnnw, *bod* y dystiolaeth am droseddau eraill na chafwyd ef yn euog ohonynt yn berthnasol i'w risg yn y dyfodol; ac y dylai'r Bwrdd Parôl fod wedi ei hystyried. Mae'r dyfarniad hwnnw felly wedi newid y sefyllfa fel yr oedd hi bryd hynny ac roedd angen ymateb i hynny.

99. Felly mae'r Bwrdd Parôl wedi cyhoeddi canllawiau i aelodau yn egluro sut a phryd y dylent ystyried unrhyw droseddau honedig ehangach. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi, ond yn gryno, disgwylir i baneli bellach ystyried troseddau eraill dieuogfarn a dod i'w casgliad eu hunain am ba bwysau i'w rhoi iddynt. Dylid rhoi eglurhad ynghylch a oedd angen ymchwiliadau pellach neu beidio.

100. Mae'r canllawiau a'r dull newydd a ddaeth yn sgîl y dyfarniad yn achos *Worboys* yn sicrhau y bydd y broses gywir yn cael ei dilyn os bydd amgylchiadau tebyg yn codi mewn achosion eraill.

### *Y Ffeil Goflen Graidd*

101. Bydd y gofynion ar gyfer y ffeil goflen yn cael eu cyflwyno a'u cyhoeddi'n ffurfiol mewn canllawiau a chyfarwyddiadau yn y dyfodol i adlewyrchu bod rhaid iddynt yn awr gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i droseddau dieuogfarn a'r trosedd sy'n berthnasol i'r ddedfryd bresennol, e.e. sylwadau dedfrydu'r barnwr yn yr achos.

### *Peidio â datgelu tystiolaeth*

102. Bwriadwn gyflwyno amserlen newydd ar gyfer ceisiadau i beidio â datgelu tystiolaeth i sicrhau eu bod yn dod i law o leiaf wyth wythnos cyn y gwrandawiad llafar. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl bartïon a'r dioddefwyr yn ymwybodol mewn da bryd am unrhyw fater peidio â datgelu ac y bydd gan y panel ddigon o amser i ymchwilio i'r pryderon. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Parôl yn cyhoeddi canllawiau Ymarfer Safonol ar benodi a chynnwys eiriolwyr arbenigol.

## Cyflwyno a Throsglwyddo Dogfennau

103. Lle mae Rheolau'r Bwrdd Parôl yn rhagnodi amserlen ar gyfer darparu dogfennau i'r partïon yn yr achos, mae'n bwysig cael eglurder ynghylch pryd a sut yr ystyriwyd bod y dogfennau hynny wedi cael eu darparu a'u cyflwyno.

104. Byddwn yn cyflwyno rheolau newydd i ddarparu'r sicrwydd hwn – gan ddarparu ar gyfer cyflwyno dogfennau mor sydyn ac effeithlon â phosib gan ystyried yn enwedig a yw'n bosib gwneud hyn yn electronig, i sicrhau bod y Rheolau'n aros ar y blaen i'r ffyrdd digidol newydd o weithio.

# 7. Sicrhau Ansawdd

## Sicrhau ansawdd

**Sicrhau ansawdd y broses barôl ac ansawdd penderfyniadau:**

### Mesurau sydd eisoes ar waith

- Mae'r Bwrdd Parôl wedi cyflwyno mesurau i sicrhau bod paneli'n cynnwys aelodau sydd â'r profiad a'r arbenigedd iawn ar gyfer yr achos.
- Wedi sicrhau bod achosion yn cynnwys troseddwyr gydag anhwylder meddwl, neu achosion a drosglwyddir o'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl, yn cael eu rhoi i aelod seiciatrig o'r panel.
- Wedi cyflwyno gwiriadau i sicrhau ansawdd ffeiliau coflen / adroddiadau cyn eu rhoi i'r Bwrdd Parôl.
- Wedi datblygu a chyhoeddi polisi ar bryd y dylai cynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol fynychu gwrandawiad.
- Mae'r Bwrdd Parôl wedi cyflwyno cyfres o gyfarwyddiadau safonol ar draws pob math o achosion.

### Mesurau ar gyfer y dyfodol

- Bydd y Bwrdd Parôl yn cyhoeddi canllawiau Ymarfer Safonol i egluro ei weithdrefnau a'i ddulliau.
- Bwriedir diwygio'r Rheolau fel bod Cadeirydd y Bwrdd yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau statudol i aelodau eraill o'r Bwrdd, neu i'r ysgrifenyddiaeth.
- Bydd yr Adolygiad Pwrpasol o'r Bwrdd Parôl yn edrych ar opsiynau statudol fel creu swyddogaethau sicrhau ansawdd neu rai tebyg i arolygiaeth.

### Rhagarweiniad

105. Mae sawl agwedd ar y system barôl, ac mae sicrhau ansawdd y penderfyniadau a chanlyniadau teg yn dibynnu ar sicrhau bod pawb yn glynu wrth bob cam o'r broses a'i bod yn gweithredu i safon uchel.

106. Cawsom fod trefniadau sicrhau ansawdd da ac effeithiol yn eu lle ond credwn y gellid gwneud mwy i roi gwybod i bobl beth yw'r trefniadau hynny er mwyn rhoi sicrwydd a hyder pellach bod y system barôl yn gweithio i'r safon uchel sy'n ddisgwyliedig ohoni.

## Cyfansoddiad Paneli

107. Mae aelodaeth o'r Bwrdd Parôl yn cael ei phenderfynu gan y statud[1] a Chadeirydd y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb statudol o ddyrannu aelodau i baneli penodol. Yn ymarferol, aelodau'r ysgrifenyddiaeth sy'n gwneud hyn a daethom i'r casgliad y byddai'n well pe bai'r Rheolau'n cael eu diwygio i adlewyrchu hyn i nodi'r sefyllfa'n gliriach.

108. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn ofalus i sicrhau bod pob panel yn cynnwys aelodau sy'n briodol i'r achos ger eu bron. Mae cyfuniad o brofiad ac arbenigedd yn hanfodol i sicrhau penderfyniadau o ansawdd da, a does dim tystiolaeth i ddangos bod un math o aelod yn fwy addas nag un arall i wrando achosion penodol.

109. Dros amser, mae'r cyfyngiadau ar ba aelodau o baneli sy'n cael gwrando mathau arbennig o achosion wedi cael eu codi drwy ddiwygio'r Rheolau. Gwnaed hyn i ganiatáu mwy o hyblygrwydd a phrydlondeb wrth restru'r achosion iawn ar gyfer yr aelodau iawn ac ni fyddem am ddadwneud y gwelliannau a wnaed o ganlyniad.

110. Cawsom fod gan Gadeirydd y Bwrdd Parôl a'r Prif Weithredwr fesurau yn eu lle i sicrhau bod paneli'n cynnwys aelodau sydd â'r profiad a'r arbenigedd iawn ar gyfer yr achos. Penodir yr aelodau mwyaf profiadol neu aelodau barnwrol i ddelio â'r achosion mwy cymhleth, proffil uchel neu gyfreithiol heriol.

111. Ond ar y cyfan, mae'r Bwrdd Parôl yn parhau i ddarparu hyfforddiant helaeth fel bo'r aelodau i gyd yn gallu gwrando pob math o achos.

## Hyfforddiant i'r Aelodau

112. Yn dilyn y dyfarniad yn achos *Worboys*, mae'r Bwrdd Parôl wedi darparu hyfforddiant i aelodau ar sut i ddelio gyda thystiolaeth o droseddau dieuogfarn wrth wneud penderfyniadau cychwynnol i ryddhau. Mae hefyd wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant gorfodol ychwanegol ar sgiliau cwestiynu effeithiol i'r holl aelodau. Mae hyn wedi'i dreialu drwy gynllun peilot gan fwriadu ei ymestyn i'r holl aelodau yn 2019.

## Dulliau o Sicrhau Ansawdd

113. Mae gan y Bwrdd Parôl nifer o ddulliau mewnol ar gyfer gwirio ansawdd penderfyniadau'r aelodau. Nid yw'r un yn amharu ar annibyniaeth yr aelod ond yn rhoi adborth defnyddiol ar dueddiadau wrth wneud penderfyniadau, ac ar berfformiad aelodau newydd.

114. Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Adolygu sy'n edrych ar benderfyniadau rhyddhau a arweiniodd at honiad o gyflawni Trosedd Pellach Difrifol ar ôl rhyddhau. Mae'r Pwyllgor yn ceisio adnabod unrhyw wersi i'w dysgu o'r achosion penodol hyn ac yn eu defnyddio i ddiweddaru ei ganllawiau i aelodau'n gyffredinol.

115. Mae aelodau newydd yn cael eu mentora gan aelodau profiadol o'r Bwrdd Parôl ac yn mynd drwy broses o achredu ar gyfer gwrando'r gwahanol fathau o wrandawiad. Mae'r aelodau i gyd yn cael eu hadolygu gan eu cyd-aelodau gydag aelodau achrededig yn arsylwi'n rheolaidd ar eu hymarfer drwy gydol eu hamser ar y Bwrdd.

---

[1] Atodlen 19 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003

116. Bydd pob aelod sy'n eistedd mewn gwrandawiadau papur yn derbyn asesiad ansawdd a gellir symud aelodau dros dro o fod yn gwneud gwrandawiadau papur os bernir bod yr asesiad yn aneffeithiol ar ddau achlysur. Bydd angen i'r aelod yna gwblhau hyfforddiant neu gyfarwyddyd un-i-un ychwanegol yn llwyddiannus.

## Paratoi Ffeiliau Coflen

117. Mae'n hanfodol bod y dystiolaeth iawn yn cael ei chyflwyno i'r panel ar y cyfle cyntaf posib. Bydd hyn yn hwyluso rheoli'r achos yn briodol o'r cychwyn, a phenderfyniadau mwy gwybodus mewn gwrandawiadau. Y PPCS (ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol) sy'n gyfrifol am baratoi'r ffeil goflen, gyda'i chynnwys wedi'i ragnodi yn yr Atodlenni i'r Rheolau. Mae'r PPCS wedi cychwyn cyflawni cyfres o wiriadau rheoli ar baratoi ffeiliau coflen i sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei phasio i'r Bwrdd.

118. Mae'r Bwrdd Parôl hefyd yn gweithio tuag at fod yn gyfrifol am reoli ffeiliau coflen o'r pwynt atgyfeirio ymlaen, gan roi mwy o reolaeth i'r Bwrdd dros ansawdd a phrydlondeb adroddiadau.

## Cyfarwyddiadau ac Ymarfer Safonol

119. Er bod angen i bob panel, drwy fod yn annibynnol, ymdrin ag achos ger eu bron yn y ffordd fwyaf priodol, bydd y Bwrdd Parôl yn cyflwyno canllawiau Ymarfer Safonol ar amrywiaeth o bynciau i roi arweiniad i baneli ar faterion gweithdrefnol. Cyhoeddir y canllawiau Ymarfer Safonol hyn ar wefan y Bwrdd Parôl. Yn ogystal yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Parôl wedi cyflwyno cyfarwyddiadau safonol ym mhob achos, fydd ond yn amrywio fel mater o eithriad. Wrth i'r defnydd o gyfarwyddiadau safonol dyfu, bydd partïon yn deall yn well beth sy'n ofynnol ac i'w ddisgwyl gan y panel.

# 8. Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

## Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

**Sicrhau bod y broses barôl mor effeithlon ac effeithiol â phosib – a bod achosion yn cael eu prosesu a'u cynnal mewn ffordd gadarn ac amserol:**

### Mesurau sydd eisoes ar waith

- Mae'r Bwrdd Parôl a'r PPCS wedi cychwyn prosiectau ar wahân i leihau nifer yr achosion gohirio.
- Mae nifer yr achosion na chawsant sylw eto wedi ei leihau drwy symleiddio prosesau gweinyddol a chyflwyno gweithdrefnau rheolaeth achos mwy cadarn.

### Mesurau ar gyfer y dyfodol

- Datblygu a gweithredu 'Protocol Gweithredol' rhwng y Bwrdd Parôl a'r PPCS – i gynnwys nodi'n gliriach beth yw rolau a chyfrifoldebau'r ddau sefydliad.
- Bydd y Bwrdd Parôl yn datblygu canllawiau Ymarfer Safonol yn nodi'n glir pa brosesau a gweithdrefnau y dylai'r aelodau eu dilyn.
- Bydd y Cyfarwyddyd presennol ar y Broses Barôl ar gyfer y Gwasanaeth Carchardai'n cael ei ddisodli gyda Fframwaith Polisi newydd, gan weithredu'r gwelliannau sydd mewn golwg o ran amserlen.
- Bwriedir ystyried cyfleoedd i wella ansawdd adroddiadau ymhellach o dan y model newydd ar gyfer Rheoli Troseddwyr Dan Glo (OMiC).

### Rhagarweiniad

120. Rhan o gyd-destun yr adolygiad hwn oedd y gwaith sylweddol a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i ddileu'r ôl-waith o achosion a ohiriwyd oherwydd na ellid eu rhestru i'w gwrando o fewn yr amserlen arferol. Yn 2013, yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Osborn, Booth a Reilly (*"achos Osborn"*), roedd yn ofynnol i'r Bwrdd Parôl gyflawni gwrandawiadau llafar mewn llawer mwy o achosion nag o'r blaen (yn lle gwneud penderfyniadau'n dilyn adolygiad papur). Arweiniodd y dyfarniad at ôl-waith achosion ynghyd ag oedi wrth i'r Bwrdd Parôl ei chael yn anodd rhestru digon o wrandawiadau llafar i gwrdd â'r cynnydd yn y galw.

121. Ers hynny fodd bynnag, mae'r Bwrdd Parôl wedi ymateb drwy gyflwyno prosesau rheolaeth achos newydd, symlach a mwy effeithlon a chyflwyno mwy o weithio drwy ddulliau electronig, fel y gall bellach restru a delio gydag achosion yn llawer cynt a mwy effeithlon – ond heb amharu ar ansawdd na thrylwyredd y penderfyniadau. Drwy wneud hyn erbyn diwedd 2017 roedd modd dileu'r ôl-waith a oedd wedi cronni a'r sefyllfa bellach yw bod y Bwrdd Parôl yn gallu rheoli ei lwyth achosion a rhestru gwrandawiadau o fewn yr amserlen arferol yn y mwyafrif o achosion.

122. Y man cychwyn ar gyfer yr adolygiad hwn, felly, oedd bod y system ar y cyfan yn rhedeg yn effeithlon ac effeithiol o ganlyniad i'r gwelliannau diweddar hyn. Ond mae rhai mesurau ychwanegol fydd yn sicr o arwain at ffyrdd gwell a mwy effeithlon fyth o weithio.

## Gwella Prosesau

### *Gohirio achosion*

123. Mae angen o hyd i ni leihau nifer yr achosion sy'n cael eu gohirio. Yn aml iawn rhaid gohirio i sicrhau bod gwrandawiad yn gallu digwydd gyda'r holl wybodaeth, tystiolaeth a thystion sydd eu hangen ar y panel i wneud penderfyniad. Ond mae'n bwysig gohirio cyn lleied â phosib o achosion, yn enwedig rhai sydd i'w cynnal ar ddiwrnod y gwrandawiad ei hun, oherwydd achosir oedi, ansicrwydd a rhwystredigaeth i garcharorion a dioddefwyr; a mwy o bwysau ar adnoddau.

124. Mae gan y Bwrdd Parôl raglen waith i leihau achosion wedi eu gohirio a sicrhau y gellir ymdrin yn effeithiol ag achosion yn eu gwrandawiad rhestru cyntaf, neu os nad yw hyn yn bosib bod y panel yn dal ei afael ar yr achos a'i symud tuag at ei gwblhau. Llwyddodd grŵp o 17 o aelodau (tua 20% o gadeiryddion panel) a brofodd y dull hwn i leihau eu cyfradd ohirio ar-y-diwrnod o 24% i 2.5% yn y chwe mis cyntaf. Bydd y gwaith hwn yn parhau a'i effaith yn cael ei fonitro.

### *Paramedrau ar gyfer gwrandawiadau papur neu lafar*

125. Un arall o dasgau'r Adolygiad oedd edrych ar y paramedrau ar gyfer gwrandawiadau papur neu lafar. Cyfraith achosion yn bennaf sydd wedi sefydlu'r paramedrau – yn enwedig dyfarniad yr Uchel Lys yn achos *Osborn* a ddyfarnodd o dan ba amgylchiadau y mae angen gwrandawiad llafar i gwrdd â gofynion cyfraith gyffredin a'r ECHR. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yng nghanllawiau mewnol y Bwrdd Parôl sy'n cael eu dilyn pan fydd y Bwrdd yn asesu a ellir penderfynu achos ar sail y papurau, neu a oes angen gwrandawiad llafar.

126. I wneud y dull hwn yn fwy eglur ac agored, bydd yn cael ei gynnwys yn y canllawiau Ymarfer Safonol newydd sydd i'w cynhyrchu a'u cyhoeddi gan y Bwrdd Parôl.

### *Rheolaeth achos weithredol*

127. Er bod y rhan fwyaf o achosion yn symud drwy'r system heb lawer o oedi, mae nifer fach o achosion sydd angen rhoi sylw ychwanegol iddynt i sicrhau y gellir eu penderfynu o fewn amserlen briodol. Mae'r PPCS wedi sefydlu Uwch-Dîm Rheolaeth Achos (ECMT) i adnabod a datrys unrhyw broblemau'n rhagweithiol. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Parôl wedi dechrau profi cynadleddau achos i adnabod achosion anodd, ymhell cyn y gwrandawiad llafar, sy'n rhoi cyfle i'r holl bartïon adnabod unrhyw broblemau posib a allai ohirio'r gwrandawiad llafar.

### *Cydymffurfio â chyfarwyddiadau*

128. Un o'r rhwystrau mwyaf i reolaeth achos effeithiol yw diffyg cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r panel, yn enwedig gan drydydd partïon. Bydd y Protocol Gweithredol newydd rhwng y Bwrdd Parôl a HMPPS yn adnabod llwybr uwchgyfeirio mewnol yn HMPPS i sicrhau bod adroddiadau gan gynrychiolwyr carchardai, prawf a chynrychiolwyr eraill o HMPPS ar amser ac i'r safon angenrheidiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallai'r Bwrdd Parôl gymryd drosodd y cyfrifoldeb am sicrhau bod trydydd partïon, fel yr heddlu neu awdurdodau lleol, yn cydymffurfio. Dylai hyn wella eglurder o ran pwy sy'n gofyn am beth a gwneud y Bwrdd Parôl yn fwy annibynnol.

129. Fodd bynnag, nid oes raid i bartïon gydymffurfio â chyfarwyddiadau paneli ac nid oes sancsiwn cyfreithiol y gall y Bwrdd ei roi am beidio (ar wahân i wneud cais i'r Uchel Lys am wŷs tyst). Ni all y Rheolau fel y maen nhw ganiatáu unrhyw sancsiynau sifil na throseddol heb ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd a fyddai newid deddfwriaethol o'r fath yn ddymunol ac ymarferol yn cael ei ystyried gan yr Adolygiad Pwrpasol o'r Bwrdd Parôl.

### *Amserlen a phrosesau gwell*

130. Prosesir y rhan fwyaf o achosion parôl drwy ddilyn y 'Broses Barôl Gyffredinol (GPP) sy'n nodi proses o 26 wythnos o bwynt atgyfeirio'r achos gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Bwrdd, hyd at ei gwblhau. Mae paratoi'r ffeil goflen ar gyfer y Bwrdd – h.y. y papurau a'r adroddiadau sydd eu hangen ar y Bwrdd i symud ymlaen gyda'r achos – yn cymryd wythnosau lawer ar ôl atgyfeirio'r achos. Nid yw hyn yn rhoi digon o amser i'r panel ddatrys unrhyw broblemau cyn y gwrandawiad papur, neu hyd yn oed yr un llafar.

131. Byddwn felly'n diwygio'r GPP fel bod atgyfeirio'n gallu digwydd ar yr un pryd â datgelu'r ffeil goflen ar y dechrau, gan roi wyth wythnos arall i'r Bwrdd reoli'r achos. Ni fydd yn golygu y bydd achosion yn profi oedi o wyth wythnos, oherwydd bydd paratoi i ddatgelu'n dechrau wyth wythnos cyn y dyddiad adolygu.

132. Bwriedir adolygu'r holl amseroedd eraill hefyd fel rhan o drosi Cyfarwyddyd GPP presennol y Gwasanaeth Carchardai yn Fframwaith Polisi. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ac yn ategol i'r Rheolau newydd yn 2019.

## Trosolwg Parhaus ar y Drefn Barôl

133. Er mwyn darparu cyfres fwy hyblyg ac ymatebol o reolau gweithdrefnol, byddwn yn sefydlu Pwyllgor Rheolau ymgynghorol i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddiwygio Rheolau'r Bwrdd Parôl yn y dyfodol. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Parôl, ymarferwyr parôl, HMPPS, cyfreithwyr y MoJ a chynrychiolwyr o grwpiau troseddwyr a dioddefwyr. Bydd yn gwneud awgrymiadau ynghylch sut i wella gweithrediad Rheolau'r Bwrdd Parôl i sicrhau bod y broses barôl yn aros yn deg, agored a thryloyw i bawb.

# 9. Troseddwyr gydag Anghenion Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu

## Troseddwyr gydag anghenion iechyd meddwl ac anawsterau dysgu



**Gwneud yn siŵr bod y system barôl yn ystyried troseddwyr gydag anghenion iechyd meddwl ac anawsterau dysgu'n iawn ac yn ateb eu hanghenion:**

| Mesurau sydd eisoes ar waith | Mesurau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|
| • Ar ôl cymryd rhan yn yr Adolygiad o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, mae prosesau'r Bwrdd Parôl wedi eu hadolygu gyda golwg ar eu symleiddio ar gyfer rhai cleifion lle mae'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl wedi argymell eu bod yn addas i'w rhyddhau'n amodol. | • Cyflwyno Rheolau i wneud darpariaeth benodol ar gyfer y weithdrefn i'w dilyn lle nad oes gan garcharorion alluedd meddyliol i sicrhau gwrandawiad teg, gan gynnwys drwy benodi cynrychiolydd addas ar eu cyfer lle bo angen. |

### Rhagarweiniad

134. Rydym wedi archwilio holl Reolau'r Bwrdd Parôl i weld a ydynt yn cefnogi a gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer y prosesau a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn i sicrhau gwrandawiad teg a chadarn.

135. Drwy wneud hyn roeddem yn ymwybodol, yn achos adolygiad barnwrol *Worboys*, o ddyfarniad yr Uchel Lys fod gwaharddiad llwyr ar ddatgelu gwybodaeth am achosion parôl (rhan o Reol 25 ar y pryd) yn mynd yn groes i egwyddorion cyfiawnder agored, a hynny'n anghyfreithlon. Ers hynny mae Rheol 25 wedi'i disodli i gywiro'r canfyddiad hwnnw ond rydym hefyd wedi adolygu holl Reolau eraill y Bwrdd Parôl i sicrhau nad oedd unrhyw rannau eraill lle gellid dadlau bod y Rheolau'n ddiffygiol.

136. Ni chanfuwyd unrhyw un o'r Rheolau eraill a allai fod yn agored i gyhuddiadau tebyg i'r rhai a wnaed yn erbyn Rheol 25 yn achos *Worboys*. Fodd bynnag, un maes lle'r oeddem yn teimlo y byddai'r Rheolau'n elwa o ddarpariaeth benodol arall oedd o ran y weithdrefn y dylid ei dilyn mewn achosion lle aseswyd bod gan y carcharor ddiffyg alluedd meddyliol i gyfranogi yn y broses barôl.

## Penodi Cynrychiolydd Addas

137. Ar hyn o bryd, mae Rheol 6 yn rhoi hawl i'r Bwrdd Parôl benodi cynrychiolydd lle nad oes gan y carcharor un ac mae'n caniatáu i gael un wedi'i benodi. O dan Reol 10, gall panel y Bwrdd Parôl wneud cyfarwyddiadau fel bo angen i sicrhau gwrandawiad teg a chyfreithlon. Gyda'i gilydd, gellir defnyddio'r Rheolau hyn i sicrhau cynrychiolaeth briodol i garcharor yn eu gwrandawiad – fel arfer eu cynrychiolydd cyfreithiol (y gellir gofyn am gymorth cyfreithiol ar ei gyfer).

138. Er credwn ei bod yn bosib o dan y Rheolau presennol, nid ydynt yn darparu'n benodol ar gyfer penodi cynrychiolydd yn yr achosion prin hynny lle na allai carcharor efallai ganiatáu i'r penodiad oherwydd eu diffyg galluedd meddyliol. Mae'n bwysig cael proses glir a chwbl ddiamwys i'w dilyn yn yr achosion hyn i sicrhau bod cynrychiolwyr yn cael eu penodi ar gyfer carcharorion sydd heb alluedd i wneud penderfyniadau eu hunain, i weithredu ar eu rhan er mwyn eu buddiannau gorau.

139. I bwrpas cymharu, edrychwyd ar y Rheolau sy'n cael eu dilyn mewn achosion Tribiwnlys y Ddeddf Iechyd Meddwl yn achos cleifion sydd dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl lle mae'r cwestiwn o alluedd i gymryd rhan yn yr achos hefyd yn codi. Mae darpariaeth yn Rheolau'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl bod y Tribiwnlys yn gallu penodi cynrychiolydd cyfreithiol priodol i weithredu er mwyn buddiannau gorau'r claf. Bwriadwn fabwysiadu darpariaeth debyg ar gyfer Rheolau'r Bwrdd Parôl.

140. Os yw'r panel yn fodlon, ar ôl ystyried yr asesiadau proffesiynol ac ar gais un o'r partïon, nad oes gan y carcharor alluedd meddyliol ac mae angen cynrychiolydd arnynt i wneud penderfyniadau ar ddilyn y broses ar eu rhan, bydd y Rheol newydd yn cynnwys darpariaeth benodol bod y panel yn gallu penodi un. Gallai'r person fod yn berthynas neu'n ffrind addas i'r carcharor, neu eu cynrychiolydd cyfreithiol, os yw'r panel yn eu hasesu i fod yn briodol i weithredu yn y capasiti hwnnw ac er mwyn buddiannau gorau'r carcharor i sicrhau gwrandawiad teg.

## Cwrdd ag Anghenion Iechyd Meddwl Carcharorion

141. Yn fwy cyffredinol, gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl yn y carchar yw'r flaenoriaeth fwyaf o hyd i'r Llywodraeth. Dyfeisiwyd pecyn o fesurau i wneud carchardai'n ddiogel, boddhaol eu safon ac yn fwy abl i reoli anghenion iechyd cymhleth yn aml y troseddwyr.

142. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) wedi croesawu lansiad yr adolygiad annibynnol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2017. Bu'r adolygiad yn ystyried ystod eang o faterion gan gynnwys sut i wella'r broses drosglwyddo rhwng carchardai ac ysbytai diogel i droseddwyr sydd angen gwneud hynny ar eu cyfer.

143. Mae'r adolygiad o'r Ddeddf Iechyd Meddwl hefyd wedi trafod symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau yn achos cleifion gyda dedfrydau amhenodol sy'n gorfod ateb i'r Tribiwnlys Iechyd Meddwl a'r Bwrdd Parôl ar gyfer ystyried eu gollwng a'u rhyddhau. Ar ôl ystyried sut y mae'r rhan yma o'r system yn gweithio, mae'r Bwrdd Parôl, yr Adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl (MHCS) a'r Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd (PPCS) yn HMPPS wedi gwella a symleiddio eu prosesau ar gyfer y cleifion hyn sydd, yn hanesyddol, wedi aros am gyfnodau hir yn yr ysbyty (neu yn y carchar) ar ôl argymhelliad gan Dribiwnlys Iechyd Meddwl eu bod yn addas i'w

rhyddhau'n amodol. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod y penderfyniad i'w cadw dan glo'n cael ei adolygu'n amserol gan y Bwrdd Parôl.

144. Mae ystod ehangach o waith ar y gweill hefyd i sicrhau dull cydgysylltiedig o adnabod a chwrdd ag anghenion iechyd meddwl pobl yn y carchar.

145. Ar 10 Ebrill 2018 cafodd y Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd mewn Carchardai yn Lloegr ei gyhoeddi gan DHSC, NHS England, y MoJ, HMPPS a Public Health England. Mae'n nodi sefydlu cydweithrediad a chydgysylltu cryfach fyth rhwng pawb sy’n gallu effeithio ar bolisi, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd mewn carchardai.

146. Mae mesurau eraill yn cynnwys:

- Cynllun gweithwyr allweddol newydd sy'n rhoi amser dynodedig i staff er mwyn rhoi cymorth un-i-un i garcharorion drwy gydol eu dedfryd.
- Hyfforddiant staff ar agweddau pwysig fel iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau - er enghraifft, llwyddodd dros 17,000 o staff carchardai newydd a phresennol i gwblhau o leiaf un modiwl yn yr hyfforddiant diwygiedig ar atal hunanladdiad a hunan-niwed.
- Mae grant o £500k wedi'i ddyfarnu i'r Samariaid pob blwyddyn am y tair blynedd nesaf i barhau i ddarparu eu cynllun Gwrando rhagorol lle mae carcharorion dethol yn cael eu hyfforddi i roi cymorth emosiynol i'w cyd-garcharorion.

# Atodiad A – Cylch Gorchwyl yr Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl

Cyhoeddwyd y Cylch Gorchwyl canlynol ar gyfer yr Adolygiad ar 28 Ebrill 2018:

## Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl

Sefydlwyd Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mae'n Gorff Cyhoeddus Gweithredol Anadrannol (NDPB). Ei rôl yw amddiffyn y cyhoedd drwy gyflawni asesiadau risg i benderfynu a yw'n ddiogel i garcharorion gael eu rhyddhau i'r gymuned.

O dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i wneud rheolau gweithdrefnol ar gyfer achosion y Bwrdd Parôl, gan gynnwys bod angen ymdrin ag achosion ar adegau penodol.

Cafodd Rheolau'r Bwrdd Parôl eu diweddaru diwethaf yn 2016 gan ymwneud â materion fel y broses o atgyfeirio achosion at y Bwrdd Parôl, penodi paneli'r Bwrdd Parôl, gwybodaeth gerbron y Bwrdd, pwerau'r Bwrdd i wneud cyfarwyddiadau ac i ohirio achosion a hefyd y gofynion ar gyfer gwrandawiadau. Mae'r Rheolau llawn ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/1041/contents/made>.

Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried pob un o Reolau'r Bwrdd Parôl a'r ddadl dros wneud unrhyw newidiadau i wella gweithrediad y Bwrdd. Bydd yn ystyried annibyniaeth y Bwrdd Parôl, yn archwilio pob un o 27 Rheol y Bwrdd Parôl ac a ddylid mabwysiadu unrhyw Reolau newydd, gan gynnwys:

1. Y dystiolaeth sydd angen ei rhoi gerbron y Bwrdd wrth ystyried achosion.
2. Y paramedrau ar gyfer gwrandawiadau papur neu lafar.
3. Y terfynau amser ar gyfer pob cam o'r broses.
4. Sut i orfodi cyfarwyddiadau'r Bwrdd Parôl.
5. A ddylai'r Rheolau nodi gofynion o ran beth ddylai cyfansoddiad paneli'r Bwrdd Parôl fod.
6. Y rheolau ar ddatgelu a pheidio â datgelu tystiolaeth.
7. Sut y gellir rhoi mynediad at wrandawiadau parôl i'r cyhoedd, gwybodaeth am yr aelodau panel sy'n gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl ac unrhyw newidiadau eraill i dryloywder y Bwrdd Parôl.
8. Cyflwyno rheolau i ddarparu trefn newydd er mwyn gallu ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl (ar ôl ymgynghori gyda'r cyhoedd).
9. Sicrhau ansawdd penderfyniadau a phrosesau'r Bwrdd Parôl.

CCS1218255848

ISBN 978-1-5286-0951-7